

# **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**cyfarfod ar y cyd rhwng**

**Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a'r Pwyllgor  
Datblygu Economaidd**

## **The National Assembly for Wales**

**joint meeting of**

**the Environment, Planning and Transport Committee and the  
Economic Development Committee**

**Caffaeliad Dwr Cymru gan Glas Cymru  
Acquisition of Welsh Water by Glas Cymru**

**Cwestiynau (1-48)  
Questions (1-48)**

**Dydd Mercher 15 Tachwedd 2000  
Wednesday 15 November 2000**

*Aelodau o'r Cynulliad yn bresennol: Richard Edwards (Cadeirydd); Mick Bates; Alun Cairns; Christine Chapman; David Davies; Geraint Davies; Ron Davies; Sue Essex (Y Gweinidog dros yr Amgylchedd); Delyth Evans; Val Feld (Cadeirydd, Pwyllgor Datblygu Economaidd); Michael German (Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd); John Griffiths; Christine Gwyther; Alison Halford; Brian Hancock; Helen Mary Jones; Tom Middlehurst; Karen Sinclair; Rhodri Glyn Thomas; Dafydd Wigley a Phil Williams.*

*Swyddogion yn bresennol: Phil Bishop, Is-adran yr Amgylchedd; Martin Evans, Cyfarwyddwr Grwp Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd; Derek Jones, Uwch Gyfarwyddwr, Materion Economaidd, Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd; Bob Macey, Pennaeth Is-adran yr Amgylchedd.*

*Tystion: Nigel Annett, Cyfarwyddwr Gweithredol, Glas Cymru; Geraint Talfan Davies, Cyfarwyddwr Anweithredol, Glas Cymru; Chris Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol, Glas Cymru; Bill Emery, Cyfarwyddwr Costau a Pherfformiad a Phrif Beiriannydd, Swyddfa Gwasanaethau Dwr (OFWAT); Keith Mason, Pennaeth Cyfrifon Rheoli a Materion Busnes, OFWAT; Yr Archddiacon Raymond Roberts, Cadeirydd, Pwyllgor Gwasanaethu Cwsmeriaid dros Gymru, OFWAT; Robert Symons, Prif Weithredwr, Western Power Distribution a Phrif Weithredwr a Chadeirydd, Hyder; Chris Llewelyn, Cyngor Defnyddwyr Cymru; Brian Wallis, Pennaeth Cyfleustodau UNSAIN Cymru (ar gyfer Cyngres Undebau Llafur Cymru).*

*Assembly Members present: Richard Edwards (Chair); Mick Bates; Alun Cairns; Christine Chapman; David Davies; Geraint Davies; Ron Davies; Sue Essex (Minister for Environment); Delyth Evans; Val Feld (Chair, Economic Development Committee); Michael German (Deputy First Minister and Minister for Economic Development); John Griffiths; Christine Gwyther; Alison Halford; Brian Hancock; Helen Mary Jones; Tom Middlehurst; Karen Sinclair; Rhodri Glyn Thomas; Dafydd Wigley and Phil Williams.*

*Officials present: Phil Bishop, Environment Division; Martin Evans, Director of the Transport, Planning and Environment Group; Derek Jones, Senior Director Economic Affairs, Transport, Planning and the Environment; Bob Macey, Head of Environment Division.*

*Witnesses: Nigel Annett, Executive Director, Glas Cymru; Geraint Talfan Davies, Non-executive Director, Glas Cymru; Chris Jones, Executive Director, Glas Cymru; Bill Emery, Director of Costs and Performance and Chief Engineer, Office of Water Services (OFWAT); Keith Mason, Head of Regulatory Accounts and Business Affairs, OFWAT; Archdeacon Raymond Roberts, Chairman, OFWAT Customer Service Committee for Wales; Robert Symons, Chief Executive, Western Power Distribution and Chief Executive and Chairman, Hyder; Chris Llewelyn, Welsh Consumer Council; Brian Wallis, Head of Utilities, UNISON Wales Region (for Wales Trades Union Congress).*

*Dechreuodd y sesiwn cymryd tystiolaeth am 5.15 p.m.*

*The evidence-taking session began at 5.15 p.m.*

[1] **Richard Edwards:** I welcome members of both Committees, witnesses and members of the public to the third joint meeting of the Economic Development Committee and the Environment, Planning and Transport Committee. I thank everyone for making themselves available at such short notice. There will be a verbatim record of today's session and I thank the Record of Proceedings team for making themselves available also.

The agenda states that the meeting should finish by 5.45 p.m. That may be a bit of a struggle. Both Committees have been in session since about 2 p.m. and I dare say that we are all flagging a little. However, this is an extremely important issue for the Assembly and for the people of Wales and we will do our best to give it a good airing.

We have with us today Geraint Talfan Davies, the non-executive director of Glas Cymru; Nigel Annett and Chris Jones, executive directors of Glas Cymru; Robert Symons, chief executive of Western Power Distribution and chief executive and chairman of Hyder; Bill Emery, director of costs and performance and chief engineer for the Office of Water Services; Keith Mason, head of regulatory accounts and business affairs, OFWAT; Archdeacon Raymond Roberts, chair of OFWAT Customer Service Committee for Wales; Brian Wallis, Trade Union Side Secretary, UNISON and Chris Llewelyn from the Welsh Consumer Council.

[1] **Richard Edwards:** Croesawaf aelodau'r ddau Bwyllgor, tystion ac aelodau'r cyhoedd i'r trydydd cyd-gyfarfod rhwng y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth. Diolch i bawb am sicrhau eu bod ar gael ar y fath fyr rybudd. Ceir cofnod air-am-air o sesiwn heddiw a hoffwn ddiolch i dîm y Cofnod am sicrhau eu bod hwythau ar gael.

Dywed yr agenda y dylai'r cyfarfod ddod i ben erbyn 5.45 p.m. Gallai hynny fod ychydig yn anodd. Mae'r ddau Bwyllgor mewn sesiwn ers tua 2 p.m. ac mae'n debyg ein bod i gyd yn dechrau blino ychydig. Fodd bynnag, mae hwn yn fater pwysig eithriadol i'r Cynulliad ac i bobl Cymru a gwnawn ein gorau i'w wyntyllu yn iawn.

Gyda ni heddiw mae Geraint Talfan Davies, cyfarwyddwr anweithredol Glas Cymru; Nigel Annett a Chris Jones, cyfarwyddwyr gweithredol Glas Cymru; Robert Symons, prif weithredwr Western Power Distribution a phrif weithredwr a chadeirydd Hyder; Bill Emery, cyfarwyddwr costau a pherfformiad a phrif beiriannydd y Swyddfa Gwasanaethau Dwr, OFWAT; Keith Mason, pennaeth cyfrifon rheoli a materion busnes OFWAT; yr Archddiacon Raymond Roberts, cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethu Cwsmeriaid dros Gymru OFWAT; Brian Wallis, Ysgrifennydd Ochr yr Undebau Llafur, UNSAIN a Chris Llewelyn o Gyngor Defnyddwyr Cymru.

The purpose of the meeting is two-fold. First, to question Glas Cymru and other interested parties about the implications of Glas Cymru's proposals for Dwr Cymru. Secondly, to offer recommendations to the Minister for Environment on issues arising from the proposal. Two papers have been tabled: the OFWAT consultation paper and covering paper from officials, which set out the issues for consideration, and a paper by Glas Cymru setting out its proposals. For information, Members also have the joint Committee statement issued in May, which lists the principles agreed by the Assembly, the Glas Cymru open letter to the First Minister, the OFWAT Customer Service Committee for Wales's press release and the statement by WPD and Hyder.

As I have already mentioned, we are restricted by time. We are also restricted by the layout of the Chamber, which is far from ideal for Committee purposes. I ask Members to focus their questions on Glas Cymru, although you may also direct questions to other witnesses. I ask you to restrict yourselves to short questions of clarification that are to the point, as I do not want any long speeches. Will Members focus on seeking assurances on the principles that we agreed back in May and on any issues that have already been raised in our brief meeting with OFWAT in the Environment, Planning and Transport Committee earlier? I am afraid that we had to adjourn that meeting in order to come here.

I ask the representatives of Glas Cymru to make a brief presentation on its plans for Dwr Cymru.

Mae dau bwrpas i'r cyfarfod hwn. Yn gyntaf, holi Glas Cymru a phartion eraill â diddordeb ynghylch goblygiadau cynigion Glas Cymru ar gyfer Dwr Cymru. Yn ail, cynnig argymhellion i Weinidog yr Amgylchedd ar faterion sydd yn codi o'r cynnig. Cyflwynwyd dau bapur: papur ymgynghorol OFWAT a phapur esboniadol gan swyddogion, sydd yn amlinellu'r materion i'w hystyried, a phapur gan Glas Cymru'n amlinellu'i gynigion. Er gwybodaeth, mae gan Aelodau hefyd ddatganiad y cyd-Bwyllgor a gyhoeddwyd ym mis Mai, sydd yn rhestru'r egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad, llythyr agored Glas Cymru at Brif Weinidog Cymru, y datganiad i'r wasg gan Bwyllgor Gwasanaethu Cwsmeriaid OFWAT a'r datganiad gan WPD a Hyder.

Fel y crybwyllais eisoes, yr ydym wedi'n cyfyngu gan amser. Yr ydym wedi'n cyfyngu hefyd gan gynllun y Siambr, sydd ymhell o fod yn ddelfrydol ar gyfer dibenion Pwyllgor. Gofynnaf i Aelodau ganolbwyntio'u cwestiynau ar Glas Cymru, er y cewch gyfeirio cwestiynau hefyd at dystion eraill. Gofynnaf ichi gyfyngu'ch hunain i gwestiynau byr a chryno am eglurhad, gan nad oes arnaf eisiau unrhyw areithiau hir. A wnaiff Aelodau ganolbwyntio ar geisio sicrwydd ar yr egwyddorion y cytunasom arnynt yn ôl ym mis Mai ac ar unrhyw faterion a godwyd eisoes yn ein cyfarfod byr gydag OFWAT ym Mhwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn gynharach? Mae arnaf ofn y bu'n rhaid inni ohirio'r cyfarfod hwnnw er mwyn dod yma.

Gofynnaf i gynrychiolwyr Glas Cymru roi cyflwyniad byr ar ei gynlluniau ar gyfer Dwr Cymru.

**Mr Talfan Davies:** Yn gyntaf, diolchaf i'r ddau Bwyllgor am y gwahoddiad hwn i gyflwyno ein cynlluniau. Tanlinellaf fod cynllun y cwmni yn un a luniwyd gan Gymry i Gymru. Diolchaf yn bennaf i Nigel Annett a Chris Jones, dau gyfarwyddwr sydd â phrofiad helaeth iawn o gwmni Dwr Cymru, ond sydd yn digwydd bod hefyd yn ddysgwyr Cymraeg brwdfrydig iawn. Diolchaf ichi am y cyfle hwn.

Trefnwyd y cyfarfod ar frys, fel y dywedaso, Gadeirydd. Yn anffodus, golygodd hynny ei bod yn amhosibl i gadeirydd y cwmni, yr Arglwydd Burns, newid ei drefniadau ar fyr rybudd. Yr oedd am imi gyflwyno ei ymddiheuriadau i'r ddau Bwyllgor, a'ch sicrhau ei fod yn teithio i Gaerdydd heno ac yn gobeithio cwrdd â chynifer o bobl ag sydd yn bosibl yma dros y ddeuddydd nesaf.

I hope that we can use the next hour both to explain our proposals in more detail and to answer the questions that I know you have on this issue. It is, of course, a vital issue. We all know that the water issue resonates in Wales in a way that it does not do anywhere else in the UK. I am sure that the view of these Committees and the Assembly will be vital in that. I should stress that both Nigel Annett and Chris Jones, who have been working on this new structure, are themselves experienced directors of Dwr Cymru who are detached from their duties to ensure that the proposals were developed independently of first, Hyder, and now, Western Power Distribution.

**Mr Talfan Davies:** First of all, I thank both Committees for this invitation to present our scheme. I stress that the company's scheme is one that was formulated by Welsh people for Wales. I principally thank Nigel Annett and Chris Jones, two directors who have very extensive experience of the Welsh Water company, but who also happen to be very enthusiastic Welsh learners. I thank you for this opportunity.

The meeting was organised in a hurry, as you said, Chair. Unfortunately, that meant that it was impossible for the company's chairman, Lord Burns, to change his arrangements at short notice. He asked me to present his apologies to both Committees, and to assure you that he is travelling to Cardiff tonight and hopes to meet as many people as possible here over the next two days.

Gobeithiaf y gallwn ddefnyddio'r awr nesaf i egluro'n cynigion yn fanylach ac i ateb y cwestiynau sydd gennych, mi wn, ar y mater hwn. Y mae, wrth gwrs, yn fater allweddol. Gwyddom i gyd fod cwestiwn dwr yn adleisio yng Nghymru mewn modd nad yw'n gwneud yn unman arall yn y DU. Yr wyf yn siwr y bydd barn y Pwyllgorau hyn a'r Cynulliad yn allweddol yn hynny o beth. Dylwn bwysleisio fod Nigel Annett a Chris Jones, sydd wedi bod yn gweithio ar y strwythur newydd yma, ill dau'n gyfarwyddwyr profiadol o Ddwr Cymru a ryddhawyd o'u dyletswyddau i sicrhau y datblygid y cynigion yn annibynnol ar Hyder, yn y lle cyntaf, a Western Power Distribution yn awr.

To say that the solution is one that is made in Wales for Wales is to state much more than just a slogan. It is the reality of a new company that is completely committed to Dwr Cymru and its customers. It is our one and only focus. It is commercially driven, of course, but there is no motivation other than the best interests of customers and the long-term interest of the industry that serves them.

We are very conscious of the fact that the industry and the workforce in Wales have suffered prolonged uncertainty. Our belief is that we have a once in a lifetime opportunity to give Wales long-term ownership and control of its most fundamental resource and to remove a very large element of uncertainty for the foreseeable future. I think that if we fail to take that opportunity, it is not one that will recur. That said, of course, the OFWAT consultation paper that you have before you has rightly raised a long list of important questions, to which I am sure both the regulator and, indeed, the public must have adequate responses. I do not want to say any more than that, but first let me ask Nigel Annett to set out some of the background.

**Mr Annett:** Good afternoon. I will leave plenty of time for questions. In these brief introductory remarks, I will concentrate on some of the key issues that were raised in the papers that were laid before the Committees for today's meeting. To reinforce something that Geraint has just said, Glas Cymru is a focused water company, focused only on the business of providing water services here in Wales. It is important to emphasise that we believe that only Glas Cymru's proposals for Dwr Cymru are ones that will secure the long-term ownership of Dwr Cymru for the benefit of the people who rely on the company in Wales. It is a Welsh company and it will remain so. Our

Mae dweud fod yr ateb yn un a wnaethpwyd yng Nghymru i Gymru yn ddweud llawer mwy na slogan yn unig. Dyma realiti cwmni newydd sydd yn gwbl ymroddedig i Ddwr Cymru a'i gwsmeriaid. Dyma'n hunig ffocws. Mae wedi'i yrru'n fasnachol, wrth gwrs, ond nid oes unrhyw gymhelliad ar wahân i fuddiannau gorau cwsmeriaid a lles tymor hir y diwydiant sydd yn eu gwasanaethu.

Yr ydym yn ymwybodol iawn o'r ffaith fod y diwydiant a'r gweithlu yng Nghymru wedi dioddef ansicrwydd dros gyfnod maith. Ein cred ni yw fod gennym gyfle a ddaw unwaith mewn bywyd i roi i Gymru berchenogaeth a rheolaeth tymor hir dros ei hadnodd mwyaf sylfaenol a dileu elfen fawr iawn o ansicrwydd am y dyfodol rhagweladwy. Credaf, os methwn â chymryd y cyfle hwnnw, nad yw'n un a ddaw inni eto. Wedi dweud hynny, wrth gwrs, mae'r papur ymgynghori gan OFWAT sydd o'ch blaenau wedi codi rhestr faith o gwestiynau pwysig, a hynny'n ddigon teg, y bydd yn rhaid i'r rheoleiddiwr ac, yn wir, y cyhoedd, gael atebion digonol iddynt, yr wyf yn siwr. Nid oes arnaf eisiau dweud mwy na hynny, ond yn gyntaf gadewch imi ofyn i Nigel Annett amlinellu rhywfaint o'r cefndir.

**Mr Annett:** Prynawn da. Gadawaf ddigon o amser ar gyfer cwestiynau. Yn y sylwadau rhagarweiniol byr hyn, canolbwyntiaf ar rai o'r materion allweddol a godwyd yn y papurau a roddwyd gerbron y Pwyllgorau ar gyfer y cyfarfod heddiw. Ac ategu rhywbeth y mae Geraint newydd ei ddweud, mae Glas Cymru'n gwmni dwr canolbwyntiol, sydd yn canolbwyntio'n unig ar y busnes o ddarparu gwasanaethau dwr yma yng Nghymru. Mae'n bwysig pwysleisio ein bod yn credu mai dim ond cynigion Glas Cymru wnaiff sicrhau perchenogaeth tymor hir Dwr Cymru er budd y bobl sydd yn dibynnu ar y cwmni yng Nghymru.

proposals are based on the premise of exposing the fact that the water industry is a low risk business. It is a low risk business in Wales, as elsewhere. It provides an essential public service. It is a monopoly. That, combined with the fact that we are restoring stability for Welsh Water's ownership, will allow us to finance the assets of Dwr Cymru, a large part of Dwr Cymru's costs, at a much lower cost. That will feed through to lower costs for Dwr Cymru and because Dwr Cymru has no shareholders, those cost benefits will go through to customers as lower bills.

The financing plans that we are working up this month and next, as we will be issuing bonds early next year, are based on the premise that we will cut bills below the current level that was set by the regulator, ahead of the next price review in 2005. That is the basis on which we are issuing new bonds to the stock market or to international investors and UK investors in the new year. That is probably the most tangible benefit of our transaction for customers and the people who rely on Welsh Water.

There are other benefits as well, of course. Our proposals will secure the £1.2 billion investment programme to which Welsh Water has signed up and which was agreed with the Assembly and regulators at the beginning of this year. The company will have a local focus on priorities in Wales and, because it does not have equity shareholders, it is our belief that it will be more open and accountable than is currently the case with some of the equity-owned companies. We have no reason for secrecy and I think that that is a major benefit for this company.

Mae'n gwmni Cymreig ac felly y bydd yn parhau. Mae'n cynigion yn seiliedig ar ddatgelu'r ffaith mai busnes risg isel yw'r diwydiant dwr. Mae'n fusnes risg isel yng Nghymru, fel mewn mannau eraill. Mae'n darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol. Mae'n fonopoli. Bydd hynny, ynghyd â'r ffaith ein bod yn adfer sefydlogrwydd i berchenogaeth Dwr Cymru, yn caniatáu inni ariannu asedau Dwr Cymru, rhan fawr o gostau Dwr Cymru, am gost lawer is. Bydd hynny'n bwydo drwodd i gostau is i Ddwr Cymru ac oherwydd nad oes gan Ddwr Cymru gyfranddalwyr, bydd y manteision cost hynny'n mynd drwodd i'r cwsmeriaid ar ffurf biliau is.

Mae'r cynlluniau ariannu yr ydym yn eu llunio y mis yma a'r nesaf, gan y byddwn yn cyhoeddi bondiau yn gynnar y flwyddyn nesaf, yn seiliedig ar y rhagosodiad y byddwn yn cwtoegi biliau o dan y lefel bresennol a osodwyd gan y rheoleiddwr, cyn yr adolygiad prisiau nesaf yn 2005. Ar y sail hon yr ydym yn cyhoeddi bondiau newydd i'r farchnad stoc neu i fuddsoddwyr rhyngwladol a buddsoddwyr y DU yn y flwyddyn newydd. Dyna, mae'n debyg, fantais fwyaf cyffyrddadwy ein pryniant i gwsmeriaid ac i'r bobl sydd yn dibynnu ar Ddwr Cymru.

Mae manteision eraill hefyd, wrth gwrs. Bydd ein cynigion yn sicrhau'r rhaglen fuddsoddi £1.2 biliwn y mae Dwr Cymru wedi ei llofnodi ac a gytunwyd gyda'r Cynulliad a rheoleiddwyr ddechrau eleni. Bydd gan y cwmni olwg leol ar flaenoriaethau yng Nghymru ac, oherwydd nad oes ganddo soddgyfranddalwyr, ein cred ni yw y bydd yn fwy agored ac atebol nag sydd yn wir ar hyn o bryd gyda rhai o'r cwmnïau sydd yn eiddo soddgyfranddalwyr. Nid oes gennym unrhyw reswm dros gyfrinachedd a chredaf fod hynny'n fantais fawr i'r cwmni hwn.

Those are the benefits that will go through to customers. Are there any risks for customers? We believe not. As the owners of Dwr Cymru, Glas Cymru will be subject to the same regulatory regime as current companies. There will be no change in the regulatory protection that customers currently enjoy. We are not a mutual; we are not handing liabilities or responsibility for liabilities over to customers in any way whatsoever. We will have substantial reserves in this company, which will cover all possible financial shocks to which Dwr Cymru could be exposed. We start with reserves of well over £100 million and those will build sharply over the next two or three years to £300 million. To put that in context, the largest shock that Dwr Cymru faced in the last 10 years was the drought of 1995. That cost £5.5 million. Those reserves will be sufficient to protect customers from any risk of problems. Bear in mind that bond investors will not invest in this company unless they have the confidence that there is no circumstance in which we will not be able to service the interest and principal payable in those bonds.

On water quality and environmental protection, the team that is behind Glas Cymru--the management team that will stay with Dwr Cymru--is committed to the water industry in Wales. That is what we are doing; that is why we are here. There will be no change in the overall legal responsibilities that Dwr Cymru has at present. The contract that we will let to commercial third party service providers will be designed to retain the integrity of the system and the overall ability to provide water sewage services safely. There will be no fudging of responsibilities under those contracts.

Dyna'r manteision a aiff drwodd i'r cwsmeriaid. A oes unrhyw beryglon i'r cwsmeriaid? Ni chredwn hynny. Fel perchenogion Dwr Cymru, bydd Glas Cymru yn dod dan yr un drefn reoleiddiol â'r cwmnïau cyfredol. Ni fydd unrhyw newid yn y warchodaeth reoleiddiol y mae cwsmeriaid yn ei mwynhau ar hyn o bryd. Nid cwmni cydfuddiannol ydym; nid ydym yn trosglwyddo dyledion na chyfrifoldeb dros ddyledion i gwsmeriaid mewn unrhyw fodd o gwbl. Bydd gennym adnoddau sylweddol wrth gefn yn y cwmni hwn, a fydd yn ddigon ar gyfer pob sioc ariannol bosibl a allai ddod i ran Dwr Cymru. Dechreuwn gydag ymhell dros £100 miliwn o ddarpariaeth wrth gefn, a bydd hynny'n codi'n gyflym yn y ddwy neu dair blynedd nesaf i £300 miliwn. A rhoi hynny yn ei gyd-destun, y sioc fwyaf a wynebodd Dwr Cymru yn y deng mlynedd diwethaf oedd sychder 1995. Costiodd hynny £5.5 miliwn. Bydd yr adnoddau wrth gefn hynny'n ddigon i warchod cwsmeriaid rhag unrhyw risg o broblemau. Cofiwch na wnaiff buddsoddwyr bondiau fuddsoddi yn y cwmni hwn oni bai fod yr hyder ganddynt nad oes unrhyw amgylchiad lle na fyddwn yn gallu cynnal y llog a'r prif swm taladwy yn y bondiau hynny.

Ar ansawdd dwr a gwarchod yr amgylchedd, mae'r tîm sydd y tu cefn i Glas Cymru--y tîm rheoli a fydd yn aros gyda Dwr Cymru--wedi ymrwymo i'r diwydiant dwr yng Nghymru. Dyna beth yr ydym yn ei wneud; dyna pam yr ydym yma. Ni fydd unrhyw newid yn y cyfrifoldebau cyfreithiol cyffredinol sydd gan Ddwr Cymru ar hyn o bryd. Bydd y contract a roddwn i ddarparwyr gwasanaethau trydydd parti masnachol wedi'i lunio i gadw cywirdeb y system a'r gallu cyffredinol i ddarparu gwasanaethau dwr a charthffosiaeth yn ddiogel. Ni fydd dim osgoi cyfrifoldebau dan y contractau hynny.



Within Dwr Cymru, we will retain the staff and resources necessary to ensure that water quality is never compromised. On Dwr Cymru's staff, we are moving into a new competitive environment. That is happening across the piece and it is happening here as well. In terms of letting the contracts to service providers, we have to apply a level playing field. However, what I can say is that Dwr Cymru, under Glas Cymru's ownership, will only employ service providers who are committed to retaining and having highly skilled, motivated and committed staff. The people who work for Dwr Cymru will only transfer to good employers.

To sum up, our proposals will put Dwr Cymru on a firm footing once again. We believe that only under Glas Cymru's ownership is the ownership of Dwr Cymru secured for the long term. It will restore stability to Dwr Cymru, which is a national industry that is especially important in Wales. We believe that our proposals are uniquely suited to Wales, and the National Assembly, I think, has been key in creating an environment that has allowed these proposals to come forward in the last 12 months.

We are obviously encouraged that the Director General of OFWAT said that he believes that, on balance, our proposals do not give rise to any insurmountable issues, provided that we can secure, first, customer support for our proposals--that is key--and, secondly, that we can secure or confirm a strong investment grade rating for the bonds that we will issue to finance this business. The National Assembly is very important to us in meeting those two key requirements. That is all I propose to say. We are happy to deal with the many questions that I am sure you have on our proposals.

O fewn Dwr Cymru, byddwn yn cadw'r staff a'r adnoddau angenrheidiol i sicrhau na chyfaddawdir byth ar ansawdd dwr. Ar staff Dwr Cymru, yr ydym yn symud i amgylchedd newydd cystadleuol. Mae hynny'n digwydd ar draws y bwrdd ac mae'n digwydd yma hefyd. Yn nhermau rhoi'r contractau i ddarparwyr gwasanaethau, rhaid inni sicrhau cae chwarae gwastad. Fodd bynnag, yr hyn y gallaf ei ddweud yw mai dim ond darparwyr gwasanaethau sydd yn ymroddedig i sicrhau a chadw staff medrus, brwdfrydig ac ymroddedig a ddefnyddir gan Ddwr Cymru, dan berchenogaeth Glas Cymru. At gyflogwyr da yn unig y bydd y bobl sydd yn gweithio i Ddwr Cymru yn trosglwyddo.

I grynhoi, bydd ein cynigion yn rhoi Dwr Cymru ar droedle cadarn unwaith eto. Credwn mai dim ond dan berchenogaeth Glas Cymru y sicheir perchenogaeth Dwr Cymru am y tymor hir. Bydd yn adfer sefydlogrwydd i Ddwr Cymru, diwydiant cenedlaethol sydd yn arbennig o bwysig yng Nghymru. Credwn fod ein cynigion yn unigryw o addas i Gymru, a bu'r Cynulliad Cenedlaethol, fe gredaf, yn allweddol o ran creu amgylchedd a ganiataodd i'r cynigion hyn ddod ymlaen yn y 12 mis diwethaf.

Wrth reswm, mae'n galonogol inni fod Cyfarwyddwr Cyffredinol OFWAT wedi dweud ei fod yn credu nad yw ein cynigion, ar y cyfan, yn codi unrhyw gwestiynau na ellir eu datrys, ar yr amod y gallwn sicrhau, yn gyntaf, gefnogaeth y cwsmeriaid i'n cynigion--mae hynny'n allweddol--ac, yn ail, y gallwn sicrhau neu gadarnhau statws gradd buddsoddiad cryf i'r bondiau a gyhoeddwn i ariannu'r busnes hwn. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwysig iawn inni o ran ateb y ddau ofyniad allweddol hynny. Dyna'r cyfan y bwriadaf ei ddweud. Yr ydym yn hapus i ddelio â'r llu o gwestiynau sydd gennyh, mae'n siwr, ar ein cynigion.

[2] **Richard Edwards:** I thank you both for those brief presentations. I invite questions.

[3] **Dafydd Wigley:** Diolchaf i'r cyfeillion am y cyflwyniad. Un mater a oedd o bwys mawr inni, fel Cynulliad Cenedlaethol, pan oeddem yn ystyried y materion hyn rai wythnosau neu fisoedd yn ôl, oedd ble fyddai pencadlys y cwmni. A fyddai'r pencadlys a'r rheolaeth yn aros yng Nghymru? Byddai gennyf ddiddordeb mewn cael rhyw sicrwydd ar gyfer y tymor hir, nid y tymor byr, ynglyn â lleoliad y pencadlys. Yn gysylltiedig â hynny, ac efallai yn deillio o'r cwestiwn hwnnw, pwy yw aelodau'r cwmni? Sut y dewiswyd hwy a sut y bydd aelodau newydd yn cael eu dewis os ceir gwagle ar gyfer aelodau? Mae'r rheolau, yn amlwg, ar ddiwedd y dydd, yn nwylo aelodau'r cwmni.

**Mr Jones:** To answer your first question, on where the headquarters will be, it will be in Wales. Currently, the water business is based in Nelson, near Ystrad Mynach. We do not know whether we will remain on that site in the very long term but, certainly, that is where we will start off. Our intention is to retain the headquarters within the Objective 1 area in the south Wales valleys. That is the most logical place for us to be based. The business will be based in Wales and it will be managed and controlled from Wales. The board, for example, will meet in Wales and the board and the membership will meet around the country. It is important, just as a footnote, to also stress that we have customers across the border in England who are equally valuable to us. We will therefore also, for example, meet in Hereford on occasions. However, this will be a Welsh company, based in Wales, for the benefit of Wales.

[2] **Richard Edwards:** Diolch ichi'ch dau am y cyflwyniadau byr hynny. Gwahoddaf gwestiynau.

[3] **Dafydd Wigley:** I thank our friends for the presentation. One issue that was of great importance to us, as a National Assembly, when we considered these issues some weeks or months ago, was where the company's headquarters would be. Would the headquarters and the management remain in Wales? I would be interested in having some assurance for the long term, not the short term, on the location of the headquarters. Related to that, and perhaps stemming from that question, who are the members of the company? How were they chosen and how will new members be chosen if vacancies arise? Obviously, at the end of the day, the rules are in the hands of the members of the company.

**Mr Jones:** I ateb eich cwestiwn cyntaf, ynghylch ble fydd y pencadlys, bydd yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'r busnes dwr wedi ei leoli yn Nelson, ger Ystrad Mynach. Ni wyddom a fyddwn yn aros ar y safle hwnnw yn y tymor hir iawn ond, yn sicr, dyna ble y byddwn yn cychwyn. Ein bwriad yw cadw'r pencadlys o fewn yr ardal Amcan 1 yng nghymoedd de Cymru. Dyna'r lle mwyaf rhesymegol inni ymsefydlu. Bydd y busnes wedi'i seilio yng Nghymru ac fe'i rheolir a'i lywio o Gymru. Bydd y bwrdd, er enghraifft, yn cyfarfod yng Nghymru a bydd y bwrdd a'r aelodaeth yn cyfarfod o gwmpas y wlad. Mae'n bwysig pwysleisio hefyd, fel troednodyn yn unig, fod gennym gwsmeriaid dros y ffin yn Lloegr sydd yr un mor werthfawr inni. Byddwn felly yn cyfarfod hefyd, er enghraifft, yn Henffordd o dro i dro. Fodd bynnag, cwmni Cymreig fydd hwn, â'i seiliau yng Nghymru, er budd Cymru.

I think that your second question, Dafydd, was on the role of the members and how they were selected. The role of the members is to act as the legal owners of the company. They act as shareholders would in what you might consider to be a normal private limited company, except that they have no financial interests. They have an important role to play in monitoring the performance of the board and in holding it to account. Therefore the members are important. We believe that the membership must be commercially focused because this is a commercial company. We will be looking for a number of people, probably of the order of 50, who will be prepared to put time in because they have an interest in Welsh Water and in seeing that it is a company that is run effectively, and who will have the right range of experience and backgrounds to ensure that they can discharge their legal duties with regard to the company.

We also hope that by having a range of 50 members we will, within that body of commercially-minded people, be able to have represented a range of what you might loosely call stakeholder perspectives--people who are interested in Welsh Water because it is probably the most important environmental industry in Wales, or perhaps because they have a particular interest in a region within Wales or, indeed, the regions in England that we serve. Basically, the role of the membership is to act as the legal owners of the company but they are not necessarily the only or, indeed, the main incentivising force on the company. This company will be a private company. It will have large amounts of private, at-risk capital. It will have the range of normal incentivising techniques that are open to any private sector company and it will have bond holders who, because there are no equity shareholders, will have a direct interest in making sure this company is well run and is in no sense heading

Credaf mai rôl yr aelodau a sut y'u dewiswyd oedd testun eich ail gwestiwn, Dafydd. Rôl yr aelodau yw gweithredu fel perchenogion cyfreithiol y cwmni. Gweithredant fel y gweithredai cyfranddalwyr mewn cwmni a alwech efallai yn gwmni cyfyngedig preifat cyffredin, heblaw nad oes ganddynt fuddiannau ariannol. Mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae o ran monitro perfformiad y bwrdd a'i ddal i gyfrif. Felly mae'r aelodau'n bwysig. Credwn fod yn rhaid i'r aelodaeth fod â ffocws masnachol gan mai cwmni masnachol yw hwn. Byddwn yn edrych am nifer o bobl, tua 50 mae'n debyg, a fydd yn barod i gyfrannu o'u hamser oherwydd bod ganddynt ddiddordeb yn Nwr Cymru ac mewn sicrhau ei fod yn gwmni a redir yn effeithiol, ac a fydd yn meddu ar yr amrediad cywir o brofiad a chefnidiroedd i sicrhau y gallant gyflawni'u dyletswyddau cyfreithiol gyda golwg ar y cwmni.

Gobeithiwn hefyd drwy gael amrediad o 50 o aelodau y gallwn, o fewn y corff hwnnw o bobl o fryd masnachol, gael cynrychiolaeth o amrediad o'r hyn y gallech ei alw'n fras yn safbwyntiau budd-ddeiliaid--pobl sydd â diddordeb yn Nwr Cymru oherwydd mai hwn yw'r diwydiant amgylcheddol pwysicaf yng Nghymru mae'n debyg, neu efallai oherwydd bod ganddynt ddiddordeb arbennig mewn ardal o fewn Cymru neu, yn wir, yr ardaloedd yn Lloegr a wasanaethir gennym. Yn y bôn, rôl yr aelodaeth yw gweithredu fel perchenogion cyfreithiol y cwmni ond nid hwy o reidrwydd yw'r unig nac, yn wir, y prif rym cymelliannol ar y cwmni. Cwmni preifat fydd y cwmni hwn. Bydd ganddo symiau mawr o gyfalaf preifat, ar fenter. Bydd ganddo'r amrediad o dechnegau cymelliannol arferol sydd ar gael i unrhyw gwmni yn y sector preifat a bydd ganddo ddalwyr bondiau a fydd, oherwydd nad oes soddgyfranddalwyr, â diddordeb uniongyrchol mewn sicrhau bod y cwmni hwn yn cael ei redeg yn dda ac nad yw

towards financial difficulties. Members have a background role, as do shareholders, but the full range of private sector disciplines and incentivisation are also operating on us.

[4] **Richard Edwards:** Thank you. I have a long list of people who want to ask questions so please bear with me as I plough through them.

[5] **Alun Cairns:** First of all, I say on this occasion as I have said previously during the acquisition of Hyder, that I do not think it is the responsibility of the Assembly ever to come up with a preferred bidder, should there ever be another bidder for Dwr Cymru. That is true also for any other business acquisition that relates to Wales.

My question relates to the relationship between the members and the board of directors. The responsibility to have to produce shareholder value is an excellent business discipline. How rigorous do you expect the relationship between the members and the board of directors to be? What guarantees can you give to the consumers that although you will not have to produce dividends, and although you will not have to return on shareholder value, the discipline that that always otherwise gives will be maintained?

mewn unrhyw fodd yn llwybro tuag at anawsterau ariannol. Mae gan aelodau rôl yn y cefndir, fel sydd gan gyfranddalwyr, ond mae'r amrediad cyfan o ddisgyblaethau a chymelliannau'r sector preifat yn gweithredu arnom hefyd.

[4] **Richard Edwards:** Diolch. Mae gennyf restr faith o bobl sydd eisiau gofyn cwestiynau felly byddwch yn amyneddgar â mi wrth imi balu drwyddynt.

[5] **Alun Cairns:** Yn gyntaf oll, dywedaf ar yr achlysur hwn fel y dywedais o'r blaen yn ystod pryniant Hyder, nad wyf o'r farn mai cyfrifoldeb y Cynulliad yw ffafrio unrhyw gynigydd yn fwy na'r llall, pe bai cynigydd arall am Ddwr Cymru. Mae hynny'n wir hefyd am unrhyw bryniant busnes arall perthnasol i Gymru.

Mae a wnelo fy nghwestiwn â'r berthynas rhwng yr aelodau a'r bwrdd cyfarwyddwyr. Mae'r cyfrifoldeb i orfod sicrhau gwerth i gyfranddalwyr yn ddisgyblaeth fusnes ardderchog. Pa mor drwyadl ydych yn disgwyl i'r berthynas rhwng yr aelodau a'r bwrdd cyfarwyddwyr fod? Pa sicrwydd allwch ei roi i'r cwsmeriaid, er na fydd yn rhaid ichi sicrhau difidendau, ac er na fydd yn rhaid ichi roi elw ar werth cyfranddalwyr, y cedwir y ddisgyblaeth y mae hynny bob amser yn ei roi fel arall?

**Mr Jones:** That is a very important question. It is a central question raised in the OFWAT discussion paper. You are exactly right that shareholders play a role in that respect with most public limited companies. However, we believe that we have an incentivisation package that will act on the company and which is at least as strong. That comes from a number of sources. The members are one, as you have mentioned. Equally the role of private sector at-risk capital, £1.8 billion of bond holder money in the first instance, will act as a very direct incentivising discipline on the company. Given the nature of those listed bonds, we will be subject to regular rating agency scrutiny, for example. That will act as an early warning system if anything is going wrong. The question is, if signs were to come up through the rating agency process, for example, that things were going wrong, what would happen? The crucial thing is that you have an independent board with a majority of non-executive directors of high commercial standing-- you might want to cover your ears at this point, Geraint--people with strong business backgrounds and high credibility, putting their reputations on the line. If things are seen to be going wrong, either through feedback from members, feedback through the capital markets, listed bonds or the rating agency process, they will have the full ability, powers and other incentives to act to dismiss the executive directors if they are not performing.

**Mr Jones:** Mae hwnnw'n gwestiwn pwysig iawn. Mae'n gwestiwn canolog a godir ym mhapur trafod OFWAT. Yr ydych yn llygad eich lle fod cyfranddallwyr yn chwarae rôl yn hynny o beth gyda'r rhan fwyaf o gwmnïau cyfyngedig cyhoeddus. Fodd bynnag, credwn fod gennym becyn cymhelliant a fydd yn gweithio ar y cwmni ac sydd lawn cyn gryfed. Daw hynny o nifer o ffynonellau. Yr aelodau yw un, fel y crybwyllasoch. Yn yr un modd bydd rôl cyfalaf fenter y sector preifat, sef £1.8 biliwn o arian dalwyr bondiau yn y lle cyntaf, yn gweithredu fel disgyblaeth gymelliannol uniongyrchol iawn ar y cwmni. O gofio natur y bondiau rhestredig hynny, byddwn yn destun archwiliad rheolaidd gan yr asiantaeth statws, er enghraifft. Bydd hynny'n gweithredu fel system rybuddio cynnar os oes unrhyw beth yn mynd o'i le. Y cwestiwn yw, pe bai arwyddion yn codi drwy broses yr asiantaeth statws, er enghraifft, bod pethau'n mynd o chwith, beth fyddai'n digwydd? Y peth allweddol yw bod gennych fwrdd annibynnol gyda mwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol ag enw masnachol da--efallai y byddwch am gau eich clustiau yn y fan hon, Geraint--pobl â chefnidir busnes cryf a hygredd mawr, yn rhoi eu henw da yn y fantol. Os gwelir bod pethau'n mynd o chwith, naill ai drwy atborth gan aelodau, atborth drwy'r marchnadoedd cyfalaf, bondiau rhestredig neu broses yr asiantaeth statws, bydd ganddynt y gallu a'r grym llawn a chymhellion eraill i weithredu i ddiswyddo'r cyfarwyddwyr gweithredol os nad ydynt yn llwyddo.

I would stress that this will be very much a commercial organisation. It is a commercial company. We intend to make the people who work for it, the directors and senior managers, and perhaps others on an opt-in basis, incentivised to produce good performance. This is essentially an environmental, public health service area. Incentivisation should not be based on the value of share options that might be dependent on diversification, movements in the stock markets and so on. We believe that it is far more powerful if that incentivisation is done on the quality of service that staff produce for customers, the quality of the environmental output to the company and on our ability to deliver price cuts for customers. That will be how people are incentivised within Glas Cymru. We believe that in this particular industry, though not necessarily in any others, that has better incentivising prospects than the rather blunt instrument of a share option package.

[6] **Richard Edwards:** I will briefly clarify a point that Alun Cairns made earlier. It is not the function of this session to support one bid before another, but simply to measure any proposal against the principles that both Committees agreed back in May.

[7] **Val Feld:** I wanted to ask about jobs and what the prospects are for maintaining the very large number of jobs that are dependent on Welsh Water. You say in, I think, your memorandum, that there will be no job losses as a direct consequence of acquisition but you also refer to outsourcing the day-to-day operations. What will be the core staffing, and what services will you outsource? Do you expect to do that to one company or to a number of companies?

Hoffwn bwysleisio mai corff masnachol fydd hwn yn anad dim. Cwmni masnachol ydyw. Bwriadwn sicrhau bod y bobl sydd yn gweithio iddo, yn gyfarwyddwyr ac uwch reolwyr, ac efallai eraill ar sail optio i mewn, yn cael eu cymell i roi perfformiad da. Maes gwasanaeth amgylcheddol, iechyd cyhoeddus yw hwn yn ei hanfod. Ni ddylai cymhelliant fod yn seiliedig ar werth cyfranddaliadau a allai fod yn ddibynnol ar arallgyfeirio, symudiadau yn y marchnadoedd stoc ac ati. Credwn ei fod yn llawer cryfach os seilir y cymhelliant hwnnw ar ansawdd y gwasanaeth a gynhyrcha'r staff i gwsmeriaid, ansawdd allbwn amgylcheddol y cwmni a'n gallu i ostwng prisiau i gwsmeriaid. Dyna sut y cymhellir pobl o fewn Glas Cymru. Credwn fod hynny, yn y diwydiant arbennig hwn, er nad o reidrwydd mewn diwydiannau eraill, yn cynnig rhagolygon cymelliannol gwell nag erfyn diawch braidd pecyn cyfranddaliadau.

[6] **Richard Edwards:** Egluraf yn fyr bwynt a wnaeth Alun Cairns yn gynharach. Nid swyddogaeth y sesiwn hwn yw cefnogi un cynnig o flaen y llall, ond yn hytrach fesur unrhyw gynnig yn erbyn yr egwyddorion y cytunodd y ddau Bwyllgor arnynt yn ôl ym mis Mai.

[7] **Val Feld:** Yr oedd arnaf eisiau holi ynghylch swyddi a'r rhagolygon ar gyfer cadw'r nifer fawr iawn o swyddi sydd yn ddibynnol ar Ddwr Cymru. Dywedwch yn eich memorandwm, mi gredaf, na chollir unrhyw swyddi o ganlyniad uniongyrchol i'r pryniant ond cyfeiriwch hefyd at gontractio allan ar gyfer y gwaith bob dydd. Beth fydd y sefydliad staffio craidd, a pha wasanaethau yr ewch chi at ffynonellau allanol i'w cael? A ydych yn disgwyl gwneud hynny i un cwmni neu i nifer o gwmnïau?

Earlier, I think that Nigel Annett referred to the importance of only transferring operations to good employers. How do you think that you will be able to place those kind of requirements on the contractors who run the services for you? Given your commitment to lowering water costs, do you think that will still enable you to retain the same level of employment and to protect a reasonable number of jobs? Basically, what is your judgment about the likely job losses as a result of this? That is a number of different questions.

**Mr Jones:** There are a number of questions there. You are quite right that in terms of Glas Cymru taking ownership of Dwr Cymru, that has, essentially, no implications for jobs, either positively or negatively: there is a change of ownership. Fundamentally, the long-term employment within the industry will depend on what the efficient level of costs for the industry is. That will be the same under any form of ownership. We have already talked about what the pressures on this company to drive down costs will be. A very great pressure is from the two guys sitting in front of us here, that is, from OFWAT. It sets the price limits going forward, based on very rigorous assumptions and targets for us to drive our costs down. That will remain in place for Dwr Cymru under any ownership. Those are the fundamentals that will determine the level of employment within the industry.

Yn gynharach, yr wyf yn meddwl y cyfeiriodd Nigel Annett at bwysigrwydd trosglwyddo gwaith i gyflogwyr da yn unig. Sut y credwch y byddwch yn gallu rhoi'r math hwnnw o ofynion ar y contractwyr a fydd yn rhedeg y gwasanaethau drosoch? O gofio'ch ymrwymiad i ostwng costau dwr, a ydych yn meddwl y bydd hynny'n eich galluogi i gadw'r un lefel o gyflogaeth a gwarchod nifer resymol o swyddi? Yn y bôn, beth yw eich barn ar y colledion swyddi tebygol o ganlyniad i hyn? Dyna nifer o gwestiynau gwahanol.

**Mr Jones:** Cafwyd nifer o gwestiynau yn y fan honno. Yr ydych yn gwbl gywir nad oes gan y ffaith fod Glas Cymru'n cymryd meddiant dros Ddwr Cymru, yn ei hanfod, unrhyw oblygiadau o ran swyddi, boed gadarnhaol neu negyddol: yr hyn a geir yw newid perchenogaeth. Yn sylfaenol, bydd cyflogaeth tymor hir o fewn y diwydiant yn dibynnu ar beth yw'r lefel costau effeithlon ar gyfer y diwydiant. Bydd honno yr un fath o dan unrhyw ffurf ar berchenogaeth. Yr ydym eisoes wedi sôn am y pwysau a fydd ar y cwmni hwn i ostwng costau. Daw pwysau mawr iawn gan y ddau ddyn sydd yn eistedd o'n blaen ni yma, hynny yw, gan OFWAT. Mae'n pennu'r terfynau prisiau i'r dyfodol, yn seiliedig ar dybiaethau a thargedau trwyadl iawn inni ostwng ein costau. Bydd hynny yr un fath i Ddwr Cymru o dan unrhyw berchenogaeth. Dyna'r materion sylfaenol a fydd yn pennu lefel cyflogaeth o fewn y diwydiant.

It is also important to remember that the direct labour costs of Welsh Water are of the order of about 20 per cent or 25 per cent of the total costs. Cost efficiency is not just about numbers of jobs. In terms of how the outsourcing process will work, what we must do as a company letting contracts under European Union procurement rules, is to set out clear criteria, a level playing field as Nigel called it, and then invite people to bid against those criteria. For us, the criteria will not be just the lowest price, necessarily. We are a service provider, providing an essential service. We also have the liabilities that go with that. We will have to specify contract award criteria that ensure that we will have a high quality service provider with a good record of providing service. In order to do that in any credible way, a company must demonstrate a track record of having a dedicated, successful and committed workforce.

So those are the sorts of organisations that will be able to win through that process. I believe, in the long run, that the best comfort that can be offered to people who work within the industry is that you have an organisation--Glas Cymru--controlling that process that is based in Wales and has the interests of Wales, its consumers and environment, at heart. To deliver that it will need to work with organisations that will be good employers. As an organisation going through a legal process, we cannot show any anti-competitive bias within that but we will set out the criteria that will define the sort of organisation that would be a good service provider and I believe that in the long run it will also be the best employers for staff.

Mae'n bwysig cofio hefyd fod costau llafur uniongyrchol Dwr Cymru tua 20 y cant neu 25 y cant o'r cyfanswm costau. Nid niferoedd swyddi yw'r unig ffactor mewn effeithlonrwydd cost. O ran sut y bydd y broses contractio allan yn gweithio, yr hyn y mae'n rhaid inni ei wneud fel cwmni sydd yn rhoi contractau dan reolau caffael yr Undeb Ewropeaidd yw amlinellu meini prawf clir, cae chwarae gwastad fel y'i galwyd gan Nigel, ac wedyn gwahodd pobl i gynnig yn erbyn y meini prawf hynny. I ni, nid dim ond y pris isaf o reidrwydd fydd y meini prawf. Darparwr gwasanaeth ydym, yn darparu gwasanaeth hanfodol. Mae gennym hefyd y dyletswyddau sydd yn cyd-fynd â hynny. Bydd yn rhaid inni bennu meini prawf ar gyfer dyfarnu contractau a fydd yn sicrhau y bydd gennym ddarparwr gwasanaeth o ansawdd uchel gyda record dda o ddarparu gwasanaeth. Er mwyn gwneud hynny mewn unrhyw fodd credadwy, rhaid i gwmni ddangos record waith o fod â gweithlu ymroddgar, llwyddiannus ac ymrwymedig.

Felly dyna'r mathau o sefydliadau a fydd yn gallu ennill drwy'r broses honno. Credaf, yn y pen draw, mai'r cysur gorau y gellir ei gynnig i bobl sydd yn gweithio o fewn y diwydiant yw bod gennych sefydliad--Glas Cymru--yn rheoli'r broses honno sydd â'i wreiddiau yng Nghymru ac y mae buddiannau Cymru, ei defnyddwyr a'i hamgylchedd, yn agos at ei galon. I lwyddo bydd angen iddo weithio gyda sefydliadau a fydd yn gyflogwyr da. Fel sefydliad yn mynd drwy broses gyfreithiol, ni allwn ddangos unrhyw ffafraeth gwrth-gystadleuol o'i mewn ond amlinellwn y meini prawf a fydd yn diffinio'r math o sefydliad a fyddai'n ddarparwr gwasanaeth da a chredaf yn y tymor hir mai hwn hefyd fydd y cyflogwr gorau i staff.



[8] **Val Feld:** First, you did not say what jobs you would keep in-house and what jobs would go out. Secondly, is it not likely that the bidders will be water companies? Is it not, therefore, likely that they will already have some of the core service staff and specialists that Welsh Water now employs and therefore, it will not need them?

**Mr Jones:** There are two points there. What we will retain within Glas Cymru are the policy formulating, contract awarding, contract monitoring and specialist technical jobs as well as finance and other ancillary back-up functions for the company. You may well be right that a water company might come in and win one of these contracts. A question that you asked earlier, Val, was how many companies we would outsource to, and the answer is probably two initially: one for operations and maintenance and one for customer services. That would be my expectation at this point. Those companies will have their own specialists and so on. I know that it has been a concern for the National Assembly before, that if another water company were to come in it would mean that those high quality, strategic jobs would be lost to the other water company. In this case it will not mean that, because Glas Cymru will retain those roles. Those are the roles that we need to play because we are ultimately responsible for the provision of the service, for setting the policies and the plans going forward. We will retain within Wales what you might call potentially mobile strategic jobs. The outsourcing and maintenance jobs, frankly, are extremely important and have to be carried out on the ground. You cannot take the water treatment works operator from west Wales and move him to East Anglia. It is not possible. Those jobs have to remain on the ground. So, there is little concern in that area for the National Assembly.

[8] **Val Feld:** Yn gyntaf, ni ddywedasoch pa swyddi y byddech yn eu cadw'n fewnol a pha swyddi fyddai'n mynd allan. Yn ail, onid yw'n debygol mai cwmnïau dwr fydd y cynigwyr? Onid yw, felly, yn debygol y bydd ganddynt eisoes rai o'r staff gwasanaeth craidd a'r arbenigwyr a gyflogir yn awr gan Ddwr Cymru ac felly, na fydd eu hangen hwy arnynt?

**Mr Jones:** Mae yno ddau bwynt. Yr hyn y byddwn ni'n ei gadw o fewn Glas Cymru yw'r swyddi llunio polisi, dyfarnu contractau, monitro contractau a swyddi technegol arbenigol ynghyd â swyddogaethau cyllidol a rhai ategol wrth gefn eraill i'r cwmni. Efallai'n wir eich bod yn iawn y gallai cwmni dwr ddod i mewn ac ennill un o'r contractau hynny. Cwestiwn a ofynnwyd gennych chi'n gynharach, Val, oedd sawl cwmni y byddem ni'n contractio allan iddynt, a'r ateb mae'n debyg yw dau ar y dechrau: un ar gyfer gweithrediadau a chynnal, ac un ar gyfer gwasanaethau cwsmeriaid. Dyna fyddai fy nisgwyliad i ar hyn o bryd. Bydd gan y cwmnïau hynny eu harbenigwyr eu hunain ac ati. Gwn y bu'n destun pryder i'r Cynulliad Cenedlaethol o'r blaen, pe deuai cwmni dwr arall i mewn y byddai'n golygu y collid y swyddi strategol, o ansawdd uchel, hynny i'r cwmni dwr arall. Yn yr achos hwn, ni fydd yn golygu hynny, oherwydd bydd Glas Cymru'n cadw'r rolau hynny. Dyna'r rolau y mae angen i ni eu chwarae oherwydd ni, yn y pen draw, sydd yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth, am osod y polisiâu a gweithredu'r cynlluniau. Byddwn yn cadw o fewn Cymru yr hyn y gallech eu galw'n swyddi strategol symudol posibl. Mae'r swyddi contractio allan a chynnal, a dweud y gwir, yn hynod o bwysig a rhaid eu gwneud yn y fan a'r lle. Ni allwch fynd â'r gweithredwr gwaith trin dwr o orllewin Cymru a'i symud i East Anglia. Nid yw'n bosibl. Rhaid i'r swyddi hynny aros yn y fan a'r lle. Felly, ychydig o bryder sydd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y maes hwnnw.

In terms of back office customer service jobs, that would be the second contract. Those are seen as mobile jobs. Equally, we have a very good workforce in that area here. Recent announcements--Lloyds TSB has been in the news during the last couple of days--have demonstrated that that is an area of relative competitive advantage for Wales. In a competitive market place, which is what we are moving into, it is difficult to offer guarantees for the very long term. What I can say is that in those areas to which I have just referred--customer service, for example--Wales has every reason to feel confident that companies coming in either from within Wales or coming in to take on the staff who would move across to that new company, would want to use that as a base for expansion rather than for contraction. I think that we should feel positive about that.

[9] **Richard Edwards:** I would be grateful for brief questions and concise answers, please.

[10] **Rhodri Glyn Thomas:** Mae cwestiwn gennyf ynglyn â'r ddyled y bydd y cwmni newydd hwn yn ei etifeddu. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, bwriad y cwmni yw, nid talu'r ddyled yn ôl ond ei chynnal dros amser. A yw Chris yn medru ein hargyhoeddi bod hynny yn syniad busnes cynaliadwy?

Sorry, did you understand that? It is about the debt that you will inherit. Your idea is to service the debt rather than to pay it off. Is that sustainable in the long term?

Yn nhermau swyddi gwasanaeth cwsmeriaid swyddfeydd cefn, hwnnw fyddai'r ail gontract. Gwelir y rheini fel swyddi symudol. Yn yr un modd, mae gennym weithlu da iawn yn y maes hwnnw yma. Mae cyhoeddiadau diweddar--bu Lloyds TSB yn y newyddion yn ystod y dyddiau diwethaf--wedi dangos bod hwnnw'n faes lle mae gan Gymru fantais gystadleuol gymharol. Mewn marchnad gystadleuol, sef yr hyn yr ydym yn symud iddi, mae'n anodd cynnig sicrwydd am y tymor hir iawn. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw bod gan Gymru bob rheswm i deimlo'n hyderus, yn y meysydd hynny yr wyf newydd gyfeirio atynt--gwasanaeth cwsmeriaid, er enghraifft--y byddai cwmnïau a ddeuai i mewn naill ai oddi mewn i Gymru neu a ddeuai i mewn i gyflogi'r staff a fyddai'n symud drosodd at y cwmni newydd hwnnw, eisiau defnyddio hynny fel sail ar gyfer ehangu yn hytrach na chrebachu. Yr wyf yn meddwl y dylem deimlo'n gadarnhaol ynghylch hynny.

[9] **Richard Edwards:** Byddwn yn ddiolchgar am gwestiynau byr ac atebion cryno, os gwelwch yn dda.

[10] **Rhodri Glyn Thomas:** I have a question regarding the debt, which this new company will inherit. My understanding is that the company's intention is not to pay off the debt but to service it over time. Can Chris convince us that that is a sustainable business idea?

Mae'n ddrwg gennyf, a ddeallasoch hynny? Mae ynglyn â'r ddyled y byddwch yn ei hetifeddu. Eich syniad chi yw cynnal y ddyled yn hytrach na'i thalu'n ôl. A yw hynny'n gynaliadwy yn y tymor hir?

**Mr Jones:** I think that the answer to that is that it is fundamental to the whole financing of the organisation that those debts must be high quality and for the long term. The financing plan that we have to put forward must be based on detailed projections of our investment requirements going out over 10, 15, 20 years. The capital markets will only put forward bond to us next year if they are confident that the financial position of the companies is strong not only now but will be so in five years' time when we have carried out the next £1 billion investment programme and in 10 years' time when we have carried out a further £1 billion, probably, investment programme.

I have great confidence in the long-term financial stability of the company and, indeed, it would not be able to fly unless we had that. Just to put some parameters on it and give you a piece of jargon, at the moment Dwr Cymru is rated as triple B minus by Standard and Poors. That is the lowest level of investment grade rating. That is not a position in which you could finance in any efficient way the huge environmental investment programme that we need in Wales. We aim to target a very strong investment grade rating, which is substantially higher than that, to put us back into the sorts of categories in which other water companies are placed. That will put us in a position where we can not only secure the development of the environmental investment programme, but finance it more efficiently. That efficient financing is the key to reducing customer bills.

[11] **Richard Edwards:** Sorry, I should have told you before Rhodri Glyn asked his question that there are headphones to listen to the simultaneous translation underneath the lectern.

**Mr Jones:** Yr wyf yn meddwl mai'r ateb i hynny yw ei bod yn sylfaenol i holl drefn ariannu'r sefydliad fod yn rhaid i'r dyledion hynny fod yn rhai o ansawdd uchel ac am y tymor hir. Rhaid i'r cynllun ariannu sydd gennym i'w gyflwyno fod yn seiliedig ar ragamcanion manwl o'n gofynion buddsoddi a fydd yn mynd allan dros 10, 15, 20 mlynedd. Ni wnaiff y marchnadoedd cyfalaf gynnig bond inni y flwyddyn nesaf oni bai eu bod yn hyderus nid yn unig bod sefyllfa ariannol y cwmnïau'n gryf yn awr ond y bydd yn gryf ymhen pum mlynedd pan fyddwn wedi cyflawni'r rhaglen fuddsoddi £1 biliwn nesaf ac ymhen 10 mlynedd pan fyddwn wedi cyflawni rhaglen fuddsoddi, mae'n debyg, o £1 biliwn pellach.

Mae gennyf hyder mawr yn sefydlogrwydd tymor hir y cwmni ac, yn wir, ni fyddai'n gallu hedfan pe na bai hynny gennym. I roi paramedrau arno a rhoi darn o jargon ichi, ar hyn o bryd mae Dwr Cymru wedi ei raddio fel BBB minus gan Standard and Poors. Dyna'r lefel isaf o statws gradd buddsoddi. Nid yw hwnnw'n safle lle gellid ariannu mewn unrhyw ffordd effeithlon y rhaglen fuddsoddi amgylcheddol enfawr sydd ei hangen arnom yng Nghymru. Ein nod yw targedu statws gradd buddsoddi cryf iawn, sydd yn sylweddol uwch na hynny, i'n rhoi'n ôl yn y mathau o gategoriâu y mae cwmnïau dwr eraill ynddynt. Bydd hynny'n ein rhoi mewn sefyllfa lle gallwn nid yn unig sicrhau datblygiad y rhaglen fuddsoddi amgylcheddol, ond ei hariannu'n fwy effeithlon. Yr ariannu effeithlon hwnnw yw'r allwedd i ostwng biliau cwsmeriaid.

[11] **Richard Edwards:** Mae'n ddrwg gennyf, dylaswn fod wedi dweud wrthy ch cyn i Rhodri Glyn ofyn ei gwestiwn fod clustffonau i wrando ar y cyfieithu-ar-y-pryd o dan y darllenfwrdd.

**Mr Jones:** Yr wyf yn gwneud fy ngorau i ymdopi hebddynt, ond efallai ei bod dipyn bach yn anodd i mi.

[12] **David Davies:** I echo Alun Cairns's point about us not getting too involved in this. Having said that, I have three questions for you. Dafydd asked how you will choose the members of this company. Your answer was, basically, that you would choose people who are committed to the water industry and who have knowledge of business. That is all very well and good and, frankly, I would have been surprised if you had said anything else. Therefore, perhaps the real question should be: who will choose those members? Can you tell us how the structure will be more open if the company is answering to members chosen by someone whose identity is unknown and in a way that is not entirely clear? Furthermore, and most importantly perhaps, can you tell us who would have the power to change the board of directors if the company were making bad commercial decisions? As you know perfectly well, the shareholders would do that in a normal company. I am not at all clear how that would happen in a company with the structure that you are putting forward.

**Mr Jones:** There are two points. First, on who chooses the members, the board chooses the members in a company limited by guarantee. That is important to ensure that the membership cannot be captured by any particular special interest group or whatever. That is an important point. However, it will do so following a rigorous and independent process. We anticipate and intend to publish a board policy statement on this in the near future. That is the sort of organisation that we want to be. What we intend to have is an independent panel with an independent chairman to bring forward recommendations, following appropriate guidelines for that sort of exercise.

**Mr Jones:** I am doing my best to cope without them, but it is perhaps a little difficult for me.

[12] **David Davies:** Ate gaf bwynt Alun Cairns ynglyn â'r angen i ni beidio ag ymhél yn ormodol â hyn. Wedi dweud hynny, mae gennyf dri chwestiwn ichi. Gofynnodd Dafydd sut y byddwch yn dewis aelodau'r cwmni hwn. Eich ateb, yn y bôn, oedd y byddech yn dewis pobl sydd ag ymrwymiad i'r diwydiant dwr ac sydd â gwybodaeth am fusnes. Mae hynny'n hollol iawn ac, a dweud y gwir, byddwn wedi fy synnu pe baech wedi dweud unrhyw beth arall. Felly, efallai mai'r cwestiwn i'w ofyn mewn gwirionedd yw: pwy fydd yn dewis yr aelodau hynny? A allwch ddweud wrthym sut y bydd y strwythur yn fwy agored os bydd y cwmni'n ateb i unigolion a ddewisir gan rywun anhysbys ac mewn ffordd nad yw'n gwbl glir? At hynny, ac yn bwysicaf oll efallai, a allwch ddweud wrthym gan bwy y byddai'r grym i newid y bwrdd cyfarwyddwyr pe bai'r cwmni'n gwneud penderfyniadau masnachol gwael? Fel y gwyddoch yn burion, y cyfranddalwyr fyddai'n gwneud hynny mewn cwmni arferol. Nid wyf yn glir o gwbl sut y byddai hynny'n digwydd mewn cwmni ac iddo'r strwythur a gynigiwch chi.

**Mr Jones:** Mae dau bwynt yma. Yn gyntaf, ynglyn â phwy sydd yn dewis yr aelodau, y bwrdd sydd yn dewis yr aelodau mewn cwmni cyfyngedig trwy warant. Mae hynny'n bwysig er mwyn sicrhau na all yr aelodaeth gael ei chipio gan unrhyw grwp buddiannau arbennig na neb arall. Mae hynny'n bwynt pwysig. Fodd bynnag, fe wna hynny yn dilyn proses drylwyr ac annibynnol. Rhagwelwn a bwriadwn gyhoeddi datganiad polisi'r bwrdd ar hyn yn y dyfodol agos. Dyna'r math o sefydliad y mae arnom eisiau bod. Yr hyn y bwriadwn ei gael yw panel annibynnol gyda chadeirydd annibynnol i gynnis argymhellion, gan ddilyn canllawiau priodol ar

That process will take advantage of the normal sorts of routes that you would expect a company to use to find individuals: the use of headhunters, the use of notices for application and the use of recommendations from appropriate stakeholder bodies. That is, the full range of routes to bring forward candidates for membership.

On who replaces the directors and who replaces the board, first, the members have that legal role in the same way that shareholders do. I would see this very much as a cascading process. First up, the non-executive directors--and this is very important--will have a majority on the board. That is written into our articles of association. They will, therefore, at any stage, be able to replace the executive directors. Secondly, the membership will be required to reappoint and appoint directors, so they can replace the board, and, thirdly, the capital markets retain a very important role there. They will have rights under the terms of their bond documents so that if certain criteria are not met--if there are indications that the company is not performing well--then that will give them certain creditor protection rights, which ultimately, can lead to, yet again, us getting fired. So I think that the one thing, in all the discussions that I have had, that seems to be an absolute given, is that we guys get kicked out the door as soon as something goes wrong. That, I think, is an important disciplinary function.

[13] **Richard Edwards:** I hope that the independent assessors that you choose are better than some of those that the Assembly has been known to use.

gyfer y math hwnnw o ymarfer. Bydd y broses honno'n manteisio ar y mathau arferol o ffyrdd y byddech yn disgwyl i gwmi eu defnyddio i ddarganfod unigolion: defnyddio 'helwyr pennau', defnyddio hysbysiadau i ymgeisio a defnyddio argymhellion gan gyrff budd-ddeiliaid priodol. Hynny yw, yr amrediad llawn o ffyrdd i gynnig ymgeiswyr am aelodaeth.

Ynghylch pwy fyddai'n newid y cyfarwyddwyr a phwy fyddai'n newid y bwrdd, yn gyntaf, gan yr aelodau y mae'r rôl gyfreithiol honno yn yr un modd ag y mae hi gan gyfranddalwyr. Byddwn i'n gweld hyn i raddau helaeth iawn fel proses raeadru. Yn y lle cyntaf, bydd gan y cyfarwyddwyr anweithredol--ac mae hyn yn bwysig iawn--fwyafrif ar y bwrdd. Mae hynny wedi'i ysgrifennu yn ein herthyglau cymdeithasiad. Byddant, felly, ar unrhyw adeg, yn gallu newid y cyfarwyddwyr gweithredol. Yn ail, bydd yn ofynnol i'r aelodaeth ailbenodi a phenodi cyfarwyddwyr, felly gallant hwy newid y bwrdd, ac yn drydydd, mae'r marchnadoedd cyfalaf yn cadw rôl bwysig iawn yn y fan honno. Bydd ganddynt hawliau dan delerau eu dogfennau bond, felly os bydd rhai meini prawf heb eu cyflawni--os ceir arwyddion nad yw'r cwmni'n perfformio'n dda--yna bydd hynny'n rhoi rhai hawliau penodol gwarchod credydwyr iddynt a all arwain yn y pen draw, eto fyth, at ein diswyddo. Felly yr wyf yn meddwl mai'r un peth sydd yn ymddangos yn gwbl sicr, yn yr holl drafodaethau a gefais i, yw y caf fi a'm criw ein cicio allan drwy'r drws y munud yr aiff rhywbeth o'i le. Mae hynny, yr wyf yn meddwl, yn swyddogaeth ddisgyblaethol bwysig.

[13] **Richard Edwards:** Gobeithio y bydd yr aseswyr annibynnol a ddewiswch yn well na rhai o'r rheini y mae'r Cynulliad wedi'u defnyddio yn y gorffennol.

[14] **Ron Davies:** You placed great emphasis on how you will comply with the need to provide an efficient and cost-effective service to consumers. That is very much in the short term. Can you explain to us how you would achieve the longer-term objectives of meeting not only the needs of consumers in the longer term, but the interests of the natural environment and the strategic use of water as a natural resource?

**Mr Jones:** I think that the commercial nature and the cost efficiency of the company--I think that its financing cost is central--is what gives us the flexibility to then go forward and do the sorts of things that we want to do as a company. One aspect of that is that we want to be able to cut customer bills, but equally, as a company, we want to have the financial resources available to invest in improved services and, in particular, to invest in environmental improvements in Wales. As a group of people, that is very important to us, and a central objective of this company will be to promote sustainable development in Wales.

There are two issues. First, we have to generate the financial surpluses. I have explained a bit about how we intend to do that. The second issue is what is the priority for using those financial surpluses between customer bill reductions, investment in the environment, investment in improved services and so on. By being an open and, hopefully, transparent organisation, and by engaging with stakeholders--the most obvious of which is, of course, the National Assembly--we hope to achieve the right balance between environmental improvement, customer bills and so on.

[14] **Ron Davies:** Rhoddasoch bwyslais mawr ar y modd y byddwch yn cydymffurfio â'r angen i ddarparu gwasanaeth effeithlon a chost-effeithiol i ddefnyddwyr. Mae hynny i raddau helaeth yn y tymor byr. A allwch egluro inni sut y byddech yn cyflawni'r amcanion mwy tymor hir o ateb nid yn unig anghenion defnyddwyr yn y tymor hwy, ond hefyd fuddiannau'r amgylchedd naturiol a'r defnydd strategol o ddwr fel adnodd naturiol?

**Mr Jones:** Credaf mai natur fasnachol a chost-effeithlonrwydd y cwmni--credaf fod ei gost ariannu yn ganolog--yw'r hyn sydd yn rhoi'r hyblygrwydd inni fynd ymlaen wedyn a gwneud y mathau o bethau y mae arnom eisiau eu gwneud fel cwmni. Un agwedd ar hynny yw bod arnom eisiau gallu cwtogi biliau cwsmeriaid, ond ar yr un pryd, fel cwmni, mae arnom eisiau bod â'r adnoddau ariannol ar gael i fuddsoddi mewn gwell gwasanaethau ac, yn arbennig, i fuddsoddi mewn gwelliannau amgylcheddol yng Nghymru. Fel grwp o bobl, mae hynny'n bwysig iawn inni, ac un o amcanion canolog y cwmni hwn fydd hybu datblygiad cynaliadwy yng Nghymru.

Mae dau fater. Yn gyntaf, mae'n rhaid inni gynhyrchu'r arian dros ben. Yr wyf wedi egluro ychydig ynghylch sut y bwriadwn wneud hynny. Yr ail fater yw beth yw'r flaenoriaeth ar gyfer defnyddio'r arian dros ben hynny rhwng gostwng biliau cwsmeriaid, buddsoddi yn yr amgylchedd, buddsoddi mewn gwell gwasanaethau ac yn y blaen. Trwy fod yn sefydliad agored a, gobeithio, tryloyw, a thrwy gydweithio â budd-ddeiliaid--a'r Cynulliad Cenedlaethol, wrth gwrs, yn amlycaf yn eu plith--gobeithiwn sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng gwella'r amgylchedd, biliau cwsmeriaid ac yn y blaen.

In terms of Wales's natural resources, clearly, water in Wales is a highly emotive subject and a valuable economic resource, both in terms of the bulk product, which, obviously, is transferred to regions in England, but also, more importantly, I think, in terms of the high quality aquatic environment in Wales. That is a very substantial economic resource for this country, directly through tourism, for example, but also indirectly in terms of the sort of economic environmental image that we want to create of Wales.

Therefore, I think, on both those grounds, having a company that secures the ownership and direction of this crucial natural resource in Wales for the long term will be the best way to ensure that we get those benefits for the country going forward.

[15] **Phil Williams:** I would like to follow up on your relationship with the companies that will perform the services for you. You used the word 'expansion' but, of course, that means expansion of a company but not expansion of employment, because if you outsource to other companies, their main incentive to acquire the work is to rationalise their workforce. That must be one of the incentives. Am I correct in stating, in simple terms, that the workforce on the ground is necessary and, therefore, relatively secure. We discussed that in terms of the man digging the hole in Newcastle Emlyn. Top management will become part of Glas Cymru. Is it not realistic to assume that there will be job losses in middle management? That is my first question.

Yn nhermau adnoddau naturiol Cymru, yn amlwg, mae dwr yng Nghymru'n bwnc sydd yn ennyn teimladau cryf iawn ac yn adnodd economaidd gwerthfawr, yn nhermau'r cynnyrch ei hyn, a drosglwyddir, wrth gwrs, i ranbarthau yn Lloegr, ond hefyd, yn bwysicach yn fy marn i, yn nhermau'r amgylchedd dyfrol o ansawdd uchel sydd yng Nghymru. Mae hwnnw'n adnodd economaidd sylweddol iawn i'r wlad hon, yn uniongyrchol drwy dwristiaeth, er enghraifft, ond hefyd yn anuniongyrchol yn nhermau'r math o ddelwedd amgylcheddol economaidd o Gymru yr ydym eisiau ei chreu. Felly, fe gredaf, am y ddau reswm hyn, cael cwmni sydd yn sicrhau perchenogaeth a chyfeiriad yr adnodd naturiol hanfodol hwn yng Nghymru am y tymor hir fydd y ffordd orau i sicrhau y cawn y manteision hynny i'r wlad i'r dyfodol.

[15] **Phil Williams:** Hoffwn ymhelaethu ar eich perthynas â'r cwmnïau a fydd yn cyflawni'r gwasanaethau drosoch. Defnyddiasoch y gair 'ehangu' ond, wrth gwrs, golyga hynny ehangu cwmni ond nid ehangu cyflogaeth, oherwydd os rhowch y gwaith i gwmnïau eraill, eu prif gymhelliant hwy i gael y gwaith yw rhesymoli eu gweithlu. Rhaid i hynny fod yn un o'r cymhellion. A ydwyf yn gywir i ddweud, mewn termau syml, fod y gweithlu yn y fan a'r lle yn angenrheidiol ac, felly, yn gymharol ddiogel? Trafodasom hynny yn nhermau'r dyn yn tyllu'r twll yng Nghastellnewydd Emlyn. Bydd uwch reolaeth yn mynd yn rhan o Glas Cymru. Onid yw'n realistig cymryd y bydd colledion swyddi mewn rheolaeth ganol? Dyna fy nghwestiwn cyntaf.

The second question is on outsourcing. If you are outsourcing, there has been the experience in recent years, when outsourcing has become a very common practice, that you have to allocate sufficient monitoring staff in your organisation to ensure that standards are maintained. It is not adequate simply to go to the lowest bidder; you have to make provision for quite significant monitoring.

**Mr Jones:** On the first question about the implications for middle management, I think that, in this particular industry, which is geographically diverse, middle management needs to be on the ground with the people. Therefore, I do not think, in this particular case, that I have undue concern that there would be a removal of a tier of management to somewhere else and another service provider. Those jobs have to be on the ground with the frontline people. Therefore, I am not particularly concerned about that area.

In terms of the second question, which is around outsourcing and the motivations for it and so on, clearly, I agree that, whatever corporate structure you are working for, you want to be able to improve cost efficiency. We need to be able to do that if we are going to achieve what we all want, which is to improve standards and to improve environmental standards without customer bills shooting up. Therefore, we all have to find ways to improve cost efficiency. Outsourcing will be one way of delivering that. Any other form of corporate control would have exactly the same objective, I think. So it is about ensuring, I think, as you rightly said, that we are not looking for the lowest bid, necessarily. We are not looking for a second rate service provider with low costs. We, Glas Cymru, retain the responsibility for delivery of service. We retain criminal responsibility and criminal liability for the quality of drinking water. We will have exactly

Mae a wnelo'r ail gwestiwn â chontractio allan. Os defnyddiwyd gwmnïau allanol, fe brofwyd yn y blynyddoedd diweddar wrth i hyn ddod yn arfer cyffredin iawn, fod yn rhaid clustnodi digon o staff monitro yn eich sefydliad chi i sicrhau y cynhelir safonau. Nid yw'n ddigonol mynd am y cynnig rhataf yn unig, rhaid ichi wneud darpariaeth ar gyfer monitro eithaf arwyddocaol.

**Mr Jones:** Ar y cwestiwn cyntaf ynghylch y goblygiadau i reolwyr canol, yr wyf o'r farn, yn y diwydiant arbennig hwn, sydd ar wasgar yn ddaearyddol, bod angen i reolaeth ganol fod yn y fan a'r lle gyda'r bobl. Felly, ni chredaf, yn yr achos arbennig hwn, fod gennyf bryder gormodol y câi haen o reolaeth ei symud i rywle arall ac at ddarparwr gwasanaeth arall. Rhaid i'r swyddi hynny fod yn y fan a'r lle gyda phobl y llinell flaen. Felly, nid wyf yn arbennig o bryderus am hynny.

Yn nhermau'r ail gwestiwn, sef ynghylch contractio allan a'r cymhellion dros hynny ac ati, yn amlwg, cytunaf fod eisiau, pa bynnag strwythur corfforaethol y gweithir iddo, gallu gwella effeithlonrwydd costau. Mae angen inni allu gwneud hynny os ydym am gyflawni'r hyn yr ydym i gyd ei eisiau, sef gwella safonau a gwella safonau amgylcheddol heb i filiau'r cwsmeriaid saethu i fyny. Felly, mae'n rhaid inni i gyd ganfod ffyrdd o wella cost-effeithlonrwydd. Bydd contractio allan yn un ffordd o sicrhau hynny. Byddai unrhyw ffurf arall o reolaeth gorfforaethol yn anelu am yr un nod yn union, fe dybiaf fi. Felly mater ydyw o sicrhau, fe gredaf, fel y dywedasoeh yn gywir, nad ydym yn edrych am y cynnig isaf, o reidrwydd. Nid ydym yn edrych am ddarparwr gwasanaeth eilradd gyda chostau isel. Ni, Glas Cymru, sydd yn parhau'n gyfrifol am y gwasanaeth a ddarperir. Gennym ni y mae cyfrifoldeb troseddol ac atebolrwydd



the same incentives as our customers, as yourselves and as the regulators do, to ensure that. You are absolutely right that Glas Cymru must have the incentive and the capability to monitor and control this provision of service very carefully. At the end of the day, nobody is more incentivised than us to make sure that service delivery is not put at risk through outsourcing.

[16] **Brian Hancock:** I ought to say that before the takeover I owned shares in Dwr Cymru and then Hyder. I suppose that I do not own any shares now. However, in my own view, I still own four shares in the original company. I will frame them. We have discussed benefits to the customer. I want to push you further on that. What is your timescale for providing lower prices and improving the quality and safety of water services?

**Mr Jones:** In terms of quality and safety, we have quite a large environmental investment programme of £1 billion. That will deliver improving services over the next five years in a number of areas, particularly in terms of river quality, in the south Wales Valleys, for example. That is very important. Also, through OFWAT's rigorous benchmarking process, we will be continually under pressure to improve our customer services. However, I think that your key question was about timing for customer bill reductions. It is always difficult to give a cast iron guarantee on such matters because nothing in life is certain. What I can tell you, quite categorically, is that we have put forward financial plans that we have shared with OFWAT and it will be rigorously examining those. We will be sharing those plans with National Assembly officials for them to examine also and, most importantly, that will be the basis on which we undertake our bond floatation next year.

troseddol am ansawdd dwr yfed. Bydd gennym yr un cymhellion yn union â'n cwsmeriaid, â chithau ac â'r rheoleiddwyr, i sicrhau hynny. Yr ydych yn llygad eich lle fod yn rhaid i Glas Cymru gael y cymhelliad a'r gallu i fonitro a rheoli'r ddarpariaeth gwasanaeth hon yn ofalus iawn. Ar ddiwedd y dydd, nid oes gan neb fwy o gymhelliad na ni i sicrhau na pheryglir y ddarpariaeth gwasanaeth drwy gcontractio allan.

[16] **Brian Hancock:** Dylwn ddweud imi fod yn berchen cyfranddaliadau yn Nwr Cymru ac wedyn Hyder cyn y trosglwyddiad. Mae'n debyg nad wyf yn berchen cyfranddaliadau mwyach. Fodd bynnag, yn fy marn i fy hun, mae gennyf bedwar cyfranddaliad o hyd yn y cwmni gwreiddiol. Yr wyf am eu fframio. Yr ydym wedi trafod manteision i'r cwsmer. Hoffwn eich gwthio ymhellach ar hynny. Beth yw'ch amserlen ar gyfer darparu prisiau is a gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau dwr?

**Mr Jones:** Yn nhermau ansawdd a diogelwch, mae gennym raglen fuddsoddi amgylcheddol o gryn faint, gwerth £1 biliwn. Bydd honno'n sicrhau bod gwasanaethau'n gwella dros y pum mlynedd nesaf mewn nifer o feysydd, yn enwedig yn nhermau ansawdd afonydd, yng Nghymoedd y De, er enghraifft. Mae hynny'n bwysig iawn. Hefyd, drwy broses feincnodi trylwyr OFWAT, byddwn dan bwysau o hyd i wella'n gwasanaethau i gwsmeriaid. Fodd bynnag, credaf mai byrdwn eich cwestiwn allweddol oedd amseriad gostyngiadau ym miliau cwsmeriaid. Mae bob amser yn anodd rhoi gwarant gwbl gadarn ar faterion o'r fath gan nad oes dim yn sicr mewn bywyd. Yr hyn y gallaf ei ddweud wrthy, yn bendant, yw ein bod wedi cyflwyno cynlluniau ariannol yr ydym wedi'u rhannu ag OFWAT ac y bydd y corff hwnnw'n eu harchwilio'n drwyadl. Byddwn yn rhannu'r cynlluniau hynny gyda swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn iddynt hwythau eu

Those are the financial plans to which we are working, to all intents and purposes, and those build in material customer rebate by years four and five of this regulatory period, which is basically 2003 onwards.

[17] **Geraint Davies:** A great selling point of your scheme to the general public would be the reduction in bills. Have you any indication of how much the reduction will be? Secondly, what is your policy with regards the transfer of water across the border? Will you get an economic price for that water?

**Mr Jones:** Two interesting questions. On the first one, on whether I would like to put a value on the customer rebates, if I may, I will decline to do that at this point. They will be material, as I have said, but you will understand that we are in a commercial process at the moment, finalising our bond prospectus and so on. It would be wrong of me to commit to a particular figure now when that might change over the coming months. What I will say is, that because Glas Cymru intends to be an open and accountable organisation, it will, in due course, publish its policy on this. So you will know what targets we are setting ourselves and you will know whether we are achieving them. You will excuse me if I do not actually commit to them today.

harchwilio ac, yn bwysicaf oll, dyna fydd y sail inni ymgymryd â rhyddhau ein bondiau i'r farchnad y flwyddyn nesaf. Dyna'r cynlluniau ariannol yr ydym yn gweithio iddynt, i bob pwrpas, ac mae'r rheini'n cynnwys ad-daliad sylweddol i gwsmeriaid erbyn blynyddoedd pedwar a phump y cyfnod rheoleiddio hwn, sef yn y bôn 2003 ymlaen.

[17] **Geraint Davies:** Un atyniad mawr ar gyfer gwerthu'ch cynllun i'r cyhoedd fyddai'r gostyngiad yn y biliau. A oes gennych unrhyw amcan faint fydd y gostyngiad? Yn ail, beth yw eich polisi o ran trosglwyddo dwr dros y ffin? A gewch chi bris economaidd am y dwr hwnnw?

**Mr Jones:** Dau gwestiwn diddorol. Ar y cyntaf, ynghylch a hoffwn i bennu gwerth ar yr ad-daliadau i gwsmeriaid, os caf, fe ymwrthodaf rhag gwneud hynny ar hyn o bryd. Byddant yn sylweddol, fel y dywedais, ond fe ddeallwch ein bod mewn proses fasnachol ar y foment, yn cwblhau ein prospectws bondiau ac ati. Ni fyddai'n iawn i mi ymrwymo i ffigur penodol yn awr pan allai hwnnw newid dros y misoedd i ddod. Yr hyn a ddywedaf yw, oherwydd y bwriada Glas Cymru fod yn sefydliad agored ac atebol, y bydd, maes o law, yn cyhoeddi ei bolisi ar hyn. Felly cewch wybod y targedau yr ydym yn eu gosod inni ein hunain a chewch wybod a ydym yn llwyddo i'w cyrraedd. Fe'm hesgusodwch os nad ymrwymaf iddynt heddiw.

In terms of selling water to other water company areas, as you will be well aware, there are tight legal constraints on that and inherited agreements that we can probably do relatively little about. However, in terms of the future, I know that a number of people have the view that water will become an increasingly valuable economic resource. If that is the case and it means a flow of economic benefits back to the company in Wales, then it seems to me essential that that company is owned and operated in Wales on behalf of Welsh customers so that the benefits go back to customers in Wales. I cannot make any promises on that, but certainly Glas Cymru, this unique opportunity to secure the water industry in Wales, means that if there are such benefits in the long term, they will go back to the customers in Wales.

[18] **Helen Mary Jones:** My questions follow on from some of the issues that other people have already raised. Given what you have said about your responsibilities as a company for quality and so on, and that we should not be worried about our outsourcing in that context, and given that we will continue to need, according to you, the middle managers and the workers on the ground, why outsource at all? Why take the decision to run Glas Cymru as the company that holds the assets and have someone else to do the work? You touched on the issue of water as a long-term resource. One of the issues that the joint Committee explored with the two bidders for Hyder in the past was their long-term plans for this. I think, to be brutally honest, that we were seeking a promise for no more Clywedogs and no more Tryweryns, at least not without the support of the National Assembly for Wales. Water will become an increasing resource. There will be more of it here than in the south and east of England. While I think that we would all welcome any profit being retained in Wales, we

O ran gwerthu dwr i ardaloedd cwmnïau dwr eraill, fel y gwyddoch yn burion, mae cyfyngiadau cyfreithiol tynn ar hynny a chytundebau a etifeddwyd na allwn wneud llawer iawn yn eu cylch yn ôl pob tebyg. Fodd bynnag, yn nhermau'r dyfodol, gwn fod nifer o bobl o'r farn y bydd dwr yn mynd yn adnodd economaidd mwyfwy gwerthfawr. Os felly y bydd hi ac y golyga hynny lif o fanteision economaidd yn ôl i'r cwmni yng Nghymru, yna mae'n ymddangos i mi ei bod yn hanfodol i'r cwmni hwnnw fod mewn perchenogaeth Gymreig ac yn cael ei weithredu yng Nghymru fel bod y manteision yn mynd yn ôl i gwsmeriaid yng Nghymru. Ni allaf wneud unrhyw addewidion ar hynny, ond yn sicr mae Glas Cymru, y cyfle unigryw hwn i ddiogelu'r diwydiant dwr yng Nghymru, yn golygu os bydd manteision o'r fath yn y tymor hir, y deuant yn ôl i'r cwsmeriaid yng Nghymru.

[18] **Helen Mary Jones:** Mae fy nghwestiynau i'n deillio o rai o'r materion y mae pobl eraill eisoes wedi'u codi. Yn wyneb yr hyn a ddywedasoch am eich cyfrifoldebau fel cwmni dros ansawdd ac ati, ac na ddylem boeni am y contractio allan yn y cyd-destun hwnnw, ac o dderbyn y byddwn yn parhau i fod angen, meddech chi, y rheolwyr canol a'r gweithwyr yn y fan a'r lle, pam contractio allan o gwbl? Pam penderfynu gweinyddu Glas Cymru fel y cwmni sydd yn dal yr asedau a chael rhywun arall i wneud y gwaith? Bu ichi gyffwrdd ar fater dwr fel adnodd tymor hir. Un o'r materion yr ymchwiliodd y cyd Bwyllgor iddo gyda'r ddau gynigydd am Hyder yn y gorffennol oedd eu cynlluniau tymor hir ar gyfer hyn. Yr wyf yn meddwl, a bod yn gignoeth o onest, mai ceisio addewid yr oeddem na cheid yr un Clywedog na Thryweryn arall, o leiaf nid heb gefnogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd dwr yn adnodd sydd yn cynyddu. Bydd mwy ohono yma nag yn ne a dwyrain Lloegr. Tra fy mod yn credu y byddem i gyd yn croesawu bod unrhyw elw'n

would also like to be sure that any plans for future development would be very sensitive.

My final question perhaps might breach commercial confidentiality if you answer it, but I would like to put it in the air anyway. You have been very clear that you are only interested in water in Wales. For me, that is a positive, because too much diversification can be a problem. However, do you have your eyes on Severn Trent's Welsh assets?

**Mr Jones:** I will work around to that third question, if you do not mind. Why outsource? I think, basically, because this is an increasingly competitive environment that we are moving into. Through outsourcing we can achieve both market-efficient service delivery pricing and we can also reduce the risks to Glas Cymru itself. The service providers will, essentially, take the financial operating risks over a medium to long-term period. That is essential in terms of us being able to provide very high quality, low cost bonds. That low cost of bond financing feeds back into our customer rebates. So outsourcing is part of an overall strategy that leads to benefits being brought to customers and the environment.

On our long-term plans for natural resources, that is a very difficult question. It is not necessarily this company--in fact, probably not--that would promote any such resource development within Wales. It is relatively easy for me to say that I cannot envisage any circumstances in which this company would push for new major water resource schemes in Wales. That is not necessarily the same as saying that nobody would ever want to do so. However, I again make the point that if Glas Cymru is in Welsh ownership, that means that to the extent that we

cael ei gadw yng Nghymru, byddem hefyd yn hoffi bod yn siwr y byddai unrhyw gynlluniau ar gyfer datblygu yn y dyfodol yn rhai sensitif iawn.

Efallai y byddai fy nghwestiwn olaf yn torri cyfrinachedd masnachol pe baech yn ei ateb, ond hoffwn ei godi beth bynnag. Yr ydych wedi datgan yn glir iawn mai diddordeb mewn dwr yng Nghymru yn unig sydd gennych. I mi, mae hynny'n beth cadarnhaol, oherwydd gall gormod o arallgyfeirio fod yn broblem. Fodd bynnag, a ydych yn llygadu asedau Cymreig Hafren Trent?

**Mr Jones:** Fe weithiaf fy ffordd tuag at y trydydd cwestiwn hwnnw, os nad oes ots gennych. Pam contractio allan? Credaf mai'r rheswm, yn y bôn, yw oherwydd ein bod yn symud i amgylchedd mwyfwy cystadleuol. Drwy gontractio allan gallwn sicrhau prisiau marchnad-effeithlon ar gyflwyniad y gwasanaeth a gallwn hefyd leihau'r peryglon i Glas Cymru ei hun. Y darparwyr gwasanaethau, yn y bôn, fydd yn cymryd y risgiau gweithredu ariannol dros gyfnod canolig i hir. Mae hynny'n hanfodol i'n galluogi ni i ddarparu bondiau cost isel, o ansawdd uchel iawn. Mae'r gost isel honno am ariannu bondiau yn bwydo'n ôl i mewn i'n had-daliadau i gwsmeriaid. Felly mae contractio allan yn rhan o strategaeth gyffredinol sydd yn arwain at ddod â manteision i gwsmeriaid ac i'r amgylchedd.

Ar ein cynlluniau tymor hir ar gyfer adnoddau naturiol, dyna gwestiwn anodd iawn. Nid y cwmni hwn o reidrwydd--yn wir, nid hwn mae'n debyg--a fyddai'n hyrwyddo unrhyw ddatblygiad adnoddau o'r fath yng Nghymru. Mae'n gymharol hawdd i mi ddweud na allaf ragweld unrhyw amgylchiadau lle byddai'r cwmni hwn yn gwthio am gynlluniau adnoddau dwr mawr newydd yng Nghymru. Nid yw hynny o reidrwydd yn gyfystyr â dweud na fyddai neb am wneud hynny byth. Fodd bynnag, gwnaf y pwynt eto, os yw Glas Cymru mewn perchenogaeth

are involved in that process, for example, if we have new opportunities to sell water competitively to other companies from the existing water resources owned by this company, then it is essential that the benefits of that should go back to Welsh customers.

That has given me a little bit of time to think about the third question. Do we have aspirations on water in the remaining part of Wales owned by Severn Trent? The honest answer is that no, we have no such aspirations as yet.

[19] **Helen Mary Jones:** It took you several minutes to answer, though.

[20] **Michael German:** ‘As yet’ probably was not picked up by the microphone, Mr Jones said it so quietly.

[21] **Richard Edwards:** You should be a politician, Mr Jones.

I thank Glas Cymru for the presentation and for answering all the questions so diligently. Time is pressing and we have become sadly diminished in numbers, I notice.

[22] **Rhodri Glyn Thomas:** The Plaid Cymru group is here.

[23] **Richard Edwards:** I am being strictly neutral here in the Chair and will not make any party political comments.

Are there any questions that Members want to address, very quickly, to the other witnesses present about the implications of the proposals?

[24] **Helen Mary Jones:** I wondered whether the union has a view on this that it can tell us about quickly.

Gymreig, yna i'r graddau yr ydym ni'n ymwneud â'r broses honno, er enghraifft, os cawn gyfleoedd newydd i werthu dwr yn gystadleuol i gwmnïau eraill o'r adnoddau dwr presennol sydd ym meddiant y cwmni hwn, yna mae'n hanfodol y dylai manteision hynny fynd yn ôl i gwsmeriaid Cymru.

Mae hynny wedi rhoi ychydig o amser imi feddwl am y trydydd cwestiwn. A ydym yn llygadu dwr yn y rhan sydd yn weddill o Gymru sydd ym meddiant Severn Trent? Yr ateb gonest yw na, nid oes gennym uchelgais o'r fath hyd yma.

[19] **Helen Mary Jones:** Fe gymerodd rai munudau ichi ateb, serch hynny.

[20] **Michael German:** Mae'n debyg na chodwyd yr 'hyd yma' gan y meicroffon, gan i Mr Jones ei ddweud mor ddistaw.

[21] **Richard Edwards:** Dylech fod yn wleidydd, Mr Jones.

Diolchaf i Glas Cymru am y cyflwyniad ac am ateb yr holl gwestiynau mor gydwybodol. Mae amser yn pwysu ac mae'n niferoedd wedi teneuo'n druenus, sylwaf.

[22] **Rhodri Glyn Thomas:** Mae grwp Plaid Cymru yma.

[23] **Richard Edwards:** Yr wyf yn bod yn hollol ddiduedd yma yn y Gadair ac ni wnafrhyw sylwadau pleidiol wleidyddol.

A oes unrhyw gwestiynau yr hoffai Aelodau eu cyfeirio, yn sydyn iawn, at y tystion eraill sydd yn bresennol ynghylch goblygiadau'r cynigion?

[24] **Helen Mary Jones:** Tybed a oes gan yr undeb farn ar hyn y gall ei rhoi inni yn gyflym?

[25] **Richard Edwards:** Mr Wallis, would you like to say a few words?

**Mr Wallis:** We have lots of views. We are not sure which is the right one, though.

[26] **Helen Mary Jones:** Like us.

**Mr Wallis:** First, I will try to give you some figures. There were lots of questions asked. I cannot tell you how much customers' bills will be decreased or how much investment will be increased. I can tell you that the core workforce at Glas Cymru will be 120 people. I can tell you that, in terms of the outsource contract, about 1,800 people will be subject to that. The unions' joint position has always been that we do not like competitive tendering. We would much prefer a company to come in and to own the assets and run the operations. If that company were to be Glas Cymru, we would be absolutely delighted. If you want to know what our fall-back position is, we would much prefer to work with a company like Glas Cymru than we would with another company that might come from--this is sounding xenophobic--outside and strip those assets. You will excuse me if I say that we have two approaches. We want to keep the company together. If that is not possible because of the way in which the business is going, then we prefer to work with Glas Cymru.

[27] **Richard Edwards:** Thank you very much for that. Val, you wanted to raise a point?

[25] **Richard Edwards:** Mr Wallis, a hoffech chi ddweud ychydig eiriau?

**Mr Wallis:** Mae gennym sawl barn. Nid ydym yn siwr pa un yw'r un gywir, serch hynny.

[26] **Helen Mary Jones:** Fel ni.

**Mr Wallis:** Yn gyntaf, fe geisiaf roi ychydig o ffigurau ichi. Gofynnwyd llawer o gwestiynau. Ni allaf ddweud wrthy ch faint o ostyngiad a fydd ym miliau cwsmeriaid na faint o gynnydd a fydd mewn buddsoddiad. Gallaf ddweud wrthy ch mai 120 o bobl fydd gweithlu craidd Glas Cymru. Gallaf ddweud wrthy ch, yn nhermau'r contractio allan, y bydd a wnelo rhyw 1,800 o bobl â hynny. Safle cytûn yr undebau erioed yw nad ydym yn hoffi tendro cystadleuol. Byddai'n llawer gwell gennym weld cwmni'n dod i mewn a chymryd meddiant ar yr asedau a rhedeg y gwaith. Pe bai Glas Cymru y cwmni hwnnw, byddem wrth ein bodd. Os hoffech wybod beth yw'n safbwynt wrth-gefn, byddai'n llawer gwell gennym weithio gyda chwmni fel Glas Cymru na gyda chwmni arall a allai ddod o--mae hyn yn swnio'n senoffobig--o'r tu allan a stripio'r asedau hynny. Fe'm hesgusodwch os dywedaf fod gennym ddwy ymagwedd. Mae arnom eisiau cadw'r cwmni'n gyfan. Os nad yw hynny'n bosibl oherwydd y ffordd y mae'r busnes yn mynd, yna mae'n well gennym weithio gyda Glas Cymru.

[27] **Richard Edwards:** Diolch yn fawr iawn i chi am hynny. Val, yr oeddech chi am godi pwynt?

[28] **Val Feld:** Yes. This is a question both to OFWAT and Glas Cymru about what happens next. OFWAT now has to do its consultation and agree any modifications to the licence.

Presumably, until that has happened you cannot go out as Glas Cymru to raise your bonds. Then, once you have raised your bonds, you go out to competitive tender on the services. What sort of timescale are we looking at and what are the considerations along the line on this?

**Mr Emery:** Our timetable is that we want views from all interested parties, including the Assembly, by 18 December. We will then consider those, so the regulator will come to a view, hopefully in January, as to where he stands and as to whether there is a package of licence qualifications that would protect customers' interests and enable this thing to go ahead. That then, I think, releases Glas Cymru to proceed with its financing plan. Later in the process when that is established, it is essentially a green light from OFWAT with a package annex. If it is happy, then there would be a final consultation on the licence modification before the thing came into being.

[29] **Val Feld:** So there are two bites at this. You do your first consideration, the company goes out and raises the money; it knows the terms on which that is raised. That helps it to have a better idea about the costs. Will the contracts have been let before you give your final say?

[28] **Val Feld:** Oeddwn. Cwestiwn yw hwn i OFWAT a Glas Cymru ill dau ynglyn â beth sydd yn digwydd nesaf. Mae'n rhaid i OFWAT yn awr wneud ei ymgynghori a chytuno ar unrhyw addasiadau i'r drwydded. Yr wyf yn tybio, nes y bydd hynny wedi digwydd, na allwch fynd allan fel Glas Cymru i godi'ch bondiau. Wedyn, unwaith y byddwch wedi codi'ch bondiau, byddwch yn mynd allan i dendr cystadleuol ar y gwasanaethau. Pa fath o amserlen yr ydym yn edrych arni a beth yw'r ystyriaethau yn ystod y broses ar hyn?

**Mr Emery:** Ein hamserlen yw yr hoffem gael sylwadau gan bob parti sydd â diddordeb, gan gynnwys y Cynulliad, erbyn 18 Rhagfyr. Wedyn byddwn yn eu hystyried, felly bydd y rheoleiddiwr yn ffurfio barn, yn Ionawr gobeithio, ynghylch ble y mae'n sefyll ac ynghylch a oes pecyn o gymwysiadau trwydded a fyddai'n gwarchod buddiannau'r cwsmeriaid ac yn galluogi i hyn fynd rhagddo. Bydd hynny wedyn, fe gredaf, yn rhyddhau Glas Cymru i fynd ymlaen â'i gynllun ariannu. Yn ddiweddarach yn y broses pan fydd hynny wedi'i sefydlu, golau gwyrdd gan OFWAT ydyw yn ei hanfod, gyda pheccyn atodol. Os yw'n hapus, yna ceid ymgynghoriad terfynol ar yr addasiad i'r drwydded cyn i'r peth ddod i fod.

[29] **Val Feld:** Felly mae dau gynnig ar hyn. Yr ydych chi'n ystyried y peth ar y dechrau, mae'r cwmni'n mynd allan i godi'r arian; mae'n gwybod ar ba delerau y mae'n ei godi. Mae hynny'n ei helpu i gael gwell syniad am y costau. A fydd y contractau wedi'u rhoi cyn i chi roi'ch gair terfynol?

**Mr Emery:** The contracts are not a part of that. The new licence requires, as it stands at the present time, a procurement condition. There is a whole procurement plan established. From now and right the way through, the onus is on Dwr Cymru to continue to provide services and to comply with all its statutory functions in a proper way. That has to continue. We will regulate that. The Drinking Water Inspectorate will regulate that. Those licence conditions and the new procurement plan hopefully will be established as soon as the new company comes into existence and owns Dwr Cymru. However, at the moment it rests with Dwr Cymru to continue to provide the services the best way it sees fit, and for Glas Cymru to take over that if and when it ever goes ahead.

[30] **Val Feld:** If this turned out not to stack up at the end of the day, in that Glas Cymru had bought Dwr Cymru but then when it went out to tender with the services that did not work out, would you intervene at that stage? I just need to be clear about where we go down the line with this.

**Mr Emery:** Our job is to make sure that the company continues to provide the services as required. We would intervene if they were at risk. The procurement conditions mean that either the company procures the services or it retains them in-house. If it cannot get the deal that it wants outside, it has to retain them in-house. Water has to flow, sewage has to be treated. Everything has to comply with the standards. The improvement programmes have to be delivered and the company has to work within the price limits that have been set. That is a fact, no matter who owns it. That remains true.

**Mr Emery:** Nid yw'r contractau'n rhan o hynny. Mae'r drwydded newydd, fel y saif ar hyn o bryd, yn mynnu amod caffael. Mae cynllun caffael cyfan wedi'i sefydlu. O hyn ymlaen a thrwy gydol y broses, mae'r baich ar Ddwr Cymru i barhau i ddarparu gwasanaethau ac i gydymffurfio â'i holl swyddogaethau statudol mewn ffordd briodol. Mae'n rhaid i hynny barhau. Byddwn ni'n rheoleiddio hynny. Bydd y Corff Arolygu Dwr Yfed yn rheoleiddio hynny. Caiff yr amodau trwydded hynny a'r cynllun caffael newydd eu sefydlu, gobeithio, cyn gynted ag y daw'r cwmni newydd i fodolaeth a dod yn berchen ar Ddwr Cymru. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mater i Ddwr Cymru o hyd yw parhau i ddarparu'r gwasanaethau yn y ffordd a wêl orau, ac i Glas Cymru gymryd hynny drosodd os a phan ddigwydd y peth.

[30] **Val Feld:** Pe gwelid ar ddiwedd y dydd nad oedd hyn yn ymarferol, hynny yw fod Glas Cymru wedi prynu Dwr Cymru ond wedyn pan âi allan i dendr gyda'r gwasanaethau fod hynny heb lwyddo, a fydddech yn ymyrryd bryd hynny? Mae arnaf angen bod yn glir ynghylch ble yr awn yn y dyfodol gyda hyn.

**Mr Emery:** Ein gwaith yw sicrhau fod y cwmni'n parhau i ddarparu'r gwasanaethau yn unol â'r gofyn. Byddem yn ymyrryd pe baent mewn perygl. Mae amodau'r caffael yn golygu fod y cwmni naill ai'n caffael y gwasanaethau neu'n eu cadw'n fewnol. Os na all gael y fargen y mae'n gobeithio amdani y tu allan, rhaid iddo'u cadw'n fewnol. Rhaid i ddwr lifo, rhaid trin carthion. Rhaid i bopeth gydymffurfio â'r safonau. Rhaid gweithredu'r rhaglenni o welliannau a rhaid i'r cwmni weithio o fewn y terfynau prisiau a bennwyd. Mae hynny'n ffaith, pwy bynnag fo'r perchennog. Mae hynny'n dal yn wir.



[31] **Val Feld:** That is clear, then. That is helpful.

**Mr Annett:** Just to reinforce that, Val, a lot of work is taking place at the minute, as you can imagine, and we are trying to make progress on all fronts. So the procurement plans are being developed, the financial plans are being developed and also we are doing the consultation with interested parties like yourselves today, to make sure that we have customer buy in and customer endorsement of what we propose. All those things are working together in parallel, not sequential, if you will, and I think that there will be a moment of bliss in the new year when all these things will come together as one. Everything is conditional on the other. That is important.

[32] **Val Feld:** There are an awful lot of 'if's and 'but's. That is why I am concerned about what happens if something does not fit into place when it needs to fit into place.

[33] **Michael German:** This follows on the back of Val's question. Whereabouts in the process does OFWAT propose to vary the conditions of the licence? Whereabouts in this whole process does that happen, because that is the point at which we have the power to direct you, if we wanted to? Whereabouts in the process do you propose those modifications to the licence?

[31] **Val Feld:** Mae hynny'n glir, felly. Mae hynny o gymorth.

**Mr Annett:** Dim ond i atgyfnerthu hynny, Val, mae llawer o waith yn digwydd ar hyn o bryd, fel y gallwch ddychmygu, ac yr ydym yn ceisio symud ymlaen ar bob ffrynt. Felly mae'r cynlluniau caffael yn cael eu datblygu, mae'r cynlluniau ariannol yn cael eu datblygu ac yr ydym hefyd yn gwneud yr ymgynghori gyda phartïon sydd â diddordeb fel chi heddiw, i wneud yn siwr fod gennym gymeradwyaeth a chyfranogiad y cwsmer i'r hyn a gynigiwn. Mae'r pethau hynny i gyd yn gweithio gyda'i gilydd yn gyfochrog, nid yn ddilyniannol, os mynnwch, ac yr wyf yn meddwl y ceir ennyd o lawenydd yn y flwyddyn newydd pan ddaw'r holl bethau hyn ynghyd fel un. Mae popeth yn amodol ar ei gilydd. Mae hynny'n bwysig.

[32] **Val Feld:** Mae llawer iawn o 'os' a 'phetai'. Dyna pam yr wyf yn bryderus ynghylch beth fydd yn digwydd os na fydd rhywbeth yn disgyn i'w le pan fo angen iddo ddisgyn i'w le.

[33] **Michael German:** Mae hyn yn dilyn ar gwt cwestiwn Val. Ymhle yn y broses y mae OFWAT yn bwriadu amrywio amodau'r drwydded? Ymhle yn y broses gyfan hon y mae hynny'n digwydd, oherwydd dyna'r pwynt lle mae gennym ni'r grym i'ch cyfarwyddo, pe bai arnom eisiau? Ymhle yn y broses yr ydych chi'n cynnig yr addasiadau hynny i'r drwydded?

**Mr Emery:** When we have a firm proposal and an acceptance and the financing plans in place and the company can do it and it is going to get a green light, then we will consult on the detailed licence package. We want the National Assembly to take a view on the package of licence amendments in bid now, and tell us before Christmas as to whether or not, from its point as the standard setter in this model, it would be content with that package of licence operating, so that we can take a view on that ourselves, as to whether we think that it is right.

[34] **Michael German:** That is not a statutory role that we play at that point. A statutory role would come later if we wanted to play it. I understand what you want. I just wanted to make clear that I understood that.

**Mr Emery:** The final thing is about the nitty-gritty of the actual precise wordings and conditions, which tends to be just a little bit of a technic-legalistic jargon. The general tenor of the license conditions is in the consultation paper. That, I think, should be enough to guide you as to what the license conditions are going to be aimed at doing.

[35] **Richard Edwards:** Thank you very much for that. I think that we have had a very wide-ranging and thorough question-and-answer session. Do Members--those of you who are left--want to flag up any issues for the First Minister? Have you got any suggestions as to how we address those issues?

[36] **Helen Mary Jones:** On a point of procedure, in terms of formally giving the Minister advice, are we quorate to do so?

**Mr Emery:** Pan fydd gennym gynnig pendant a'i fod wedi'i dderbyn a phan fo'r cynlluniau ariannu yn eu lle a'r cwmni'n gallu ei wneud a'i fod yn mynd i gael golau gwyrdd, yna byddwn yn ymgynghori ar y pecyn trwydded manwl. Mae arnom eisiau i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd golwg ar y pecyn o addasiadau trwydded a gynnigir yn awr, a dweud wrthym cyn y Nadolig a fyddai'n fodlon ai peidio, o'i safbwynt fel y gosodwr safonau yn y model hwn, gyda'r pecyn gweithredu trwydded hwnnw, fel y gallwn ninnau edrych ar hynny, i weld a ydyw'n iawn yn ein golwg ni.

[34] **Michael German:** Nid rôl statudol yw'r rôl a chwaraewn bryd hynny. Byddai rôl statudol yn dod yn ddiweddarach pe baem eisiau ei chwarae. Yr wyf yn deall beth sydd arnoch ei eisiau. Dim ond eisiau ei gwneud yn glir fy mod yn deall hynny yr oeddw'n.

**Mr Emery:** Y peth olaf yw glo mân yr union eiriad manwl a'r amodau, sydd yn tueddu i fod yn ychydig o jargon technegol-gyfreithiol. Mae swm a sylwedd cyffredinol amodau'r drwydded yn y papur ymgynghori. Dylai hynny, yr wyf yn meddwl, fod yn ddigon i'ch arwain ar yr hyn y bydd amodau'r drwydded yn anelu at wneud.

[35] **Richard Edwards:** Diolch yn fawr ichi am hynny. Yr wyf yn meddwl ein bod wedi cael sesiwn gwestiwn ac ateb eang a thrwyadl iawn. A oes ar Aelodau--y rheini ohonoch sydd ar ôl--eisiau dwyn unrhyw faterion i sylw Prif Weinidog Cymru? A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch sut yr awn ati i ddelio â'r materion hynny?

[36] **Helen Mary Jones:** Ar bwynt o weithdrefn, yn nhermau rhoi cyngor yn ffurfiol i'r Gweinidog, a oes gennym gworwm i wneud hynny?

[37] **Richard Edwards:** I am not sure that we are quorate to take a vote, actually.

[38] **Helen Mary Jones:** I am not advocating that, but in terms of the status of any advice that we may present today to Sue Essex and Rhodri Morgan, we just need to be sure--*[Interruption.]*

[39] **Richard Edwards:** Order, please.

[40] **Val Feld:** Would you be content if we were to ask the Clerk to prepare, from today's verbatim record and against our previous set of principles, a judgment as to what the views and questions that have been represented today are, and then to circulate that--

[41] **Richard Edwards:** Measured against the principles.

[42] **Val Feld:** Yes, measured against the principles, because that is the baseline against which we need to measure. Then you have an opportunity to think about those. One of our problems is that those were actually about Hyder, rather than Dwr Cymru, which is a bit different, so we need to consider--

[43] **Helen Mary Jones:** We need to look at the water aspects of that original position.

[44] **Richard Edwards:** We will need to look at that in greater detail, as well as the licence modifications, of course. Is everybody happy about that?

[37] **Richard Edwards:** Nid wyf yn siwr fod gennym gworwm i gymryd pleidlais, a dweud y gwir.

[38] **Helen Mary Jones:** Nid wyf yn dadlau dros hynny, ond yn nhermau statws unrhyw gyngor a gyflwynwn heddiw i Sue Essex a Rhodri Morgan, mae angen inni fod yn siwr --*[Torri ar draws.]*

[39] **Richard Edwards:** Trefn, os gwelwch yn dda.

[40] **Val Feld:** A fyddech yn fodlon pe baem yn gofyn i'r Clerc baratoi, o gofnod gair-am-air heddiw ac yn erbyn ein set o egwyddorion blaenorol, ddyfarniad ar beth oedd y sylwadau a'r cwestiynau a godwyd heddiw, ac wedyn ei gylchredeg--

[41] **Richard Edwards:** Wedi'i fesur yn erbyn yr egwyddorion.

[42] **Val Feld:** Ie, wedi'i fesur yn erbyn yr egwyddorion, oherwydd dyna'r llinell sylfaen y mae angen inni fesur yn ei herbyn. Wedyn fe gewch gyfle i feddwl am y rheini. Un o'n problemau yw mai ynglyn â Hyder yr oedd y rheini, yn hytrach na Dwr Cymru, sydd ychydig yn wahanol, felly mae angen inni ystyried--

[43] **Helen Mary Jones:** Mae angen inni edrych ar agweddau'r safle gwreiddiol hwnnw yr oedd a wnelont â dwr.

[44] **Richard Edwards:** Bydd angen inni edrych ar hynny mewn mwy o fanylder, yn ogystal â'r addasiadau i'r drwydded, wrth gwrs. A ydyw pawb yn hapus ynglyn â hynny?

[45] **Helen Mary Jones:** Again, on a point of procedure, Chair, will there be an opportunity for the two Committees--separately, if needs be--to have a discussion about the document that is produced as a result before it formally becomes the Committees' advice to Ministers? I am quite aware, as Mike German points out, that we are only giving advice, but there is a question as to the status of that advice: is it advice from us as a group of individuals or is it the formal advice of the Committees?

[46] **Richard Edwards:** I fully undertake to take every step to make sure that that happens.

[47] **Helen Mary Jones:** It may not be necessary, but I just wanted to raise that because of the complexity of this.

[48] **Richard Edwards:** No, it is very important. It is vital that it does happen. Are there any other points that anybody wishes to raise? It is late and I am sorry that things got a bit squeezed towards the end in terms of time. I thank everybody for attending, especially members of Glas Cymru and all the other witnesses. Thank you very much. Thank you also to Members and members of the public.

[45] **Helen Mary Jones:** Eto, ar bwynt o weithdrefn, Gadeirydd, a fydd cyfle i'r ddau Bwyllgor--ar wahân, os oes raid--gael trafodaeth ar y ddogfen a gynhrychir fel canlyniad cyn iddo fynd yn ffurfiol yn gyngor y Pwyllgorau i'r Gweinidogion? Yr wyf yn eithaf ymwybodol, fel y nododd Mike German, mai dim ond rhoi cyngor yr ydym, ond mae cwestiwn ynghylch statws y cyngor hwnnw: ai cyngor gennym ni fel grwp o unigolion ydyw ynteu ai cyngor ffurfiol y Pwyllgorau?

[46] **Richard Edwards:** Ymgymeraf yn llawn i gymryd pob cam i sicrhau y digwydd hynny.

[47] **Helen Mary Jones:** Efallai nad yw'n angenrheidiol, ond yr oeddwn eisiau codi hynny oherwydd cymhlethdod hyn.

[48] **Richard Edwards:** Na, mae'n bwysig iawn. Mae'n hollbwysig fod hynny'n digwydd. A oes unrhyw bwyntiau eraill y mae unrhyw un yn dymuno'u codi? Mae'n hwyr ac mae'n ddrwg gennyf fod pethau wedi cael eu gwasgu braidd tua'r diwedd o ran amser. Diolchaf i bawb am eu presenoldeb, yn enwedig aelodau Glas Cymru a'r holl dystion eraill. Diolch yn fawr iawn ichi. Diolch hefyd i'r Aelodau ac aelodau'r cyhoedd.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.08 p.m.  
The meeting ended at 6.08 p.m.*